Gwefan: http://www.payingforcareinwales.net

Am fwy of gopïau caled o'r Papur Gwyrdd e-bostiwch
payingforcare@wales.gsi.gov.uk neu ffoniwch 029 2082 5681

75% wedi'i ailgylchu
recycled

E3020910

Cysodwyd mewn teip 14pt

ISBN 978 0 7504 5279 3

CMK-22-312 18260

© Hawlfraint y Goron 2009

Rhagair

Rwy'n falch dros ben o gael cyhoeddi Papur Gwyrdd cyntaf Cymru ynghylch Talu am Ofal. Gwyddom fod llawer mwy ohonom yng Nghymru yn byw bywydau hirach, iachach, mwy egnïol a gweithgar. Rhywbeth i'w ddathlu yw hyn, ond bydd llawer ohonom hefyd yn byw gydag anghenion o ran gofal a chymorth yn y dyfodol. Yn ogystal, mae'n hollol ddealladwy ein bod am gael gwasanaethau gofal o ansawdd uchel a hwylus i'w defnyddio pan fydd arnom eu hangen, ac mae perffaith hawl gennym i ddymuno hyn. Fel yr wyf wedi'i nodi ym Mhennod 1, ni fydd y system bresennol yn ddigonol ar gyfer y pwysau yr ydym yn gwybod ei fod yn prysur gynyddu, a'r unig ffordd y gallwn wireddu ein dyheadau o ran gwasanaethau yw mynd ati mewn modd radical i ddiwygio'r system ofal a sut y mae pob un ohonom yn talu amdani – yn unigolion, eu teuluoedd a'r llywodraeth gyda'i gilydd. Y Papur Gwyrdd hwn yw'r cam nesaf yn y drafodaeth a gychwynnwyd gennym y llynedd ac mae'n nodi'r egwyddorion a'r opsiynau o ran newid – rhaid cynnal trafodaeth eang ledled Cymru ynghylch ffurf derfynol yr atebion.

Yn ein strategaeth, "Bywydau Bodlon, Cymunedau Cefnogol", nodwyd ein gweledigaeth ar gyfer gwell gwasanaethau cymdeithasol yng Nghymru. Rydym am sicrhau ei bod yn haws i bobl fanteisio ar ofal sy'n cyfateb yn well i'w hanghenion personol, a hynny yn gynt, gan eu helpu i gadw'u hannibyniaeth. Rwyf wedi cyhoeddi y bydd Llywodraeth y Cynulliad yn sefydlu Comisiwn i ystyried sut yr ydym yn diwallu'r anghenion sy'n wynebu'r gwasanaethau cymdeithasol dros y degawd nesaf. Byddaf yn sicrhau bod y Comisiwn yn ystyried canlyniadau a chanfyddiadau'r ymgynghoriad hwn ynghylch Talu am Ofal a'r trafodaethau a gafwyd yn ystod y cyfnod hwn er mwyn sicrhau bod y dull o ystyried dyfodol gofal cymdeithasol yng Nghymru yn un cydlynol.

Rydym eisoes wedi cynnal rhaglen ymgynghori ac ymgysylltu eang ynghylch Talu am Ofal yng Nghymru, a oedd yn cynnwys ymgynghoriad cyhoeddus, dau ddigwyddiad i randdeiliaid a Grŵp Cynghori. Mawr yw fy niolch i bawb sydd wedi cyfrannu i'r drafodaeth bwysig hon hyd yn hyn. Bellach mae'r Papur Gwyrdd ar gyfer Cymru yn egluro'r seiliau ar gyfer trafodaeth ymhellach â phobl Cymru ar sut y gallwn greu system o dalu am ofal yng Nghymru sy'n un deg, syml, a fforddiadwy.

Ym Mhennod 2 o'r Papur Gwyrdd rwyf wedi nodi'r dull penodol o ofal cymdeithasol yr ydym wedi'i fabwysiadu yng Nghymru, a chynlluniau Llywodraeth y Cynulliad i wella'r modd y darperir gwasanaethau cymdeithasol. Fodd bynnag yn y cyd-destun hwn, gan fod y ddeddfwriaeth ynghylch y system o dalu am ofal yn cael ei rhoi ar y llyfr statud ar lefel Cymru a Lloegr, mae Pennod 3 yn nodi'r cynigion a luniwyd gan Lywodraeth y DU ar gyfer diwygio'r modd yr ydym yn talu am ofal. Lluniwyd hyn, fodd bynnag, i adlewyrchu'r canfyddiadau a gafwyd yn sgil ein rhaglen ymgysylltu gynharach ledled Cymru ac argymhellion ein Grŵp Cynghori.

Mae Llywodraeth y DU wedi cynnwys yn ei Phapur Gwyrdd ar ddiwygio gofal cymdeithasol yn Lloegr rai syniadau ynghylch y posibilrwydd o integreiddio rhai manteision a'r system ar gyfer gofal cymdeithasol. Dim ond cynnig yw hyn ar hyn o bryd, ac nid oes unrhyw benderfyniadau terfynol wedi'u gwneud. Rwyf yn derbyn bod ystyried sut y gallai hyn effeithio ar fater talu am ofal yng Nghymru yn bwysig i lawer o bobl. Er nad yw mater budd-daliadau wedi'i ddatganoli, mae Llywodraeth y DU

wedi ymrwymo i weithio'n agos gyda'r llywodraethau datganoledig i ddod i farn gyffredin ynghylch y modd o sicrhau'r canlyniadau gorau posibl i bawb yn y DU. Rwyf yn benderfynol o gynnal trafodaeth effeithiol â'm cymheiriaid yn Llywodraeth y DU er mwyn helpu i gyflawni hyn a sicrhau bod ystyriaeth yn cael ei rhoi i farn pobl Cymru a fynegwyd yn ystod yr ymgynghoriad hwn.

Mae'r Papur Gwyrdd ar gyfer Cymru yn sbarduno trafod ar un o bynciau pwysicaf y degawd diwethaf. Mae'r gwasanaethau hyn yn rhai hanfodol ac mae llawer o bobl yn dibynnu arnynt a bydd rhagor yn dibynnu arnynt yn y dyfodol. Mae nifer o heriau ac opsiynau anodd ynghylch y modd y dylem lunio system ofal a chymorth y dyfodol a sut yr ydym yn talu amdani. Hoffwn eich annog i ymuno â'r drafodaeth bwysig hon dros y 3 mis nesaf.



Gwenda Thomas AC
Y Dirprwy Weinidog dros Wasanaethau Cymdeithasol

Cynnwys

	Tudalen
Pennod 1: Yr Her	**1**
Pennod 2: Trawsnewid Gwasanaethau Cymdeithasol Yng Nghymru	**11**
Pennod 3: Model Newydd ar gyfer Ariannu Gofal	**25**
Pennod 4: Sut i Ymateb i'r Ymgynghoriad hwn	**49**

Pennod 1

Yr Her

1. Cyflwyniad

1.1. Mae'n bosibl y bydd angen gofal a chymorth ar bob un ohonom ar ryw adeg yn ein bywydau, ac mae'r angen am wasanaethau gofal a chymorth yn debygol o gynyddu'n sylweddol dros y degawdau nesaf wrth i fwy ohonom fyw'n hirach. Mae ein hagweddau a'n disgwyliadau'n newid hefyd, wrth i ni fynnu fwyfwy, wasanaethau o safon uwch sy'n ein galluogi i fyw bywydau mwy annibynnol a boddhaus.

1.2. Bydd angen i'r system bresennol o dalu am ofal a chymorth newid i ateb y galw a'r disgwyliadau cynyddol. Mae'r trefniadau presennol yn gymhleth ac yn anghynaliadwy yn yr hirdymor. Ein nod yw cyflwyno system newydd yn eu lle sy'n symlach, yn decach ac yn fwy fforddiadwy i unigolion, eu teuluoedd a'r llywodraeth.

2. Beth yw gofal a chymorth?

2.1. Mae'n debygol y bydd angen gofal a chymorth ar y bobl ganlynol yng Nghymru:

- pobl sydd wedi cael damwain;
- pobl sydd â salwch hirdymor;
- pobl anabl; neu
- bobl hŷn.

2.2. Mae ‘gofal a chymorth' yn disgrifio'r amrywiaeth o gymorth ymarferol, emosiynol ac ariannol sydd ei angen ar y bobl hyn er mwyn bwrw ati gyda'u bywydau a chyfrannu at gymdeithas. Gallai gynnwys cael cymorth gyda'r canlynol:

- gofal personol fel codi o'r gwely, ymolchi a gwisgo;
- tasgau o ddydd i ddydd fel siopa, coginio neu lanhau;
- cadw mewn cysylltiad â theulu a ffrindiau;
- gofalu am blant a chyflawni cyfrifoldebau rhianta;
- addasu cartrefi a gweithfannau i ddiwallu anghenion unigolyn; neu
- addysgu sgiliau newydd fel sut i ddefnyddio trafnidiaeth gyhoeddus yn hyderus neu reoli eich arian eich hun er mwyn byw'n annibynnol.

2.3. Gallai sefydliadau'r sector cyhoeddus, fel gwasanaethau cymdeithasol awdurdodau lleol neu wasanaethau cymorth tai ddarparu'r cymorth hwn yn ffurfiol neu gellid ei ddarparu drwy'r system budd-daliadau lles. Yn ogystal â darparu gwasanaethau'n uniongyrchol, mae awdurdodau lleol yn chwarae rhan bwysig o ran comisiynu sefydliadau eraill i ddarparu'r gwasanaethau hyn i bobl. Gall sefydliadau preifat roi cymorth hefyd, fel cartrefi gofal preifat neu asiantaethau gofal cartref, neu

gall sefydliadau gwirfoddol roi cymorth. Darperir llawer o ofal a chymorth yn anffurfiol gan deuluoedd, ffrindiau neu gymdogion.

3. Pam mae angen i'r system talu am ofal newid?

3.1. Disgwylir i newidiadau demograffig a newidiadau eraill gael effaith fawr ar y galw am wasanaethau gofal a chymorth dros yr ugain mlynedd nesaf. Mae'r system gyfredol o dalu am ofal yn tarddu o'r 1940au a dechrau'r Wladwriaeth Les fodern, ac mae eisoes yn amlwg nad yw'r system hon yn mynd i fod yn ddigon cadarn i ymdopi â'r galw cynyddol amdani. Ac er bod llywodraethau olynol wedi ceisio diwygio'r ffordd y darperir gwasanaethau gofal, yn arbennig mewn ymateb i gysyniadau sy'n datblygu o ran anabledd a heneiddio, nid yw'r system ar gyfer **ariannu** gofal a chymorth wedi ymateb i'r agweddau a'r disgwyliadau sy'n newid mewn cymdeithas. Mae angen i ni baratoi yn awr i ateb yr her a berir gan newid demograffig, tra'n sicrhau, ar yr un pryd, ein bod yn parhau i ymateb i ddisgwyliadau cynyddol ynglŷn â'r hyn y bydd y system gofal a chymorth yn ei gyflwyno i unigolion a'r bobl hynny sy'n gofalu amdanynt.

4. Tueddiadau demograffig

4.1. Bydd goblygiadau pwysig o ran y galw am wasanaethau gofal yng Nghymru wrth i gyfraddau ffrwythlondeb ostwng yn is na'r lefel lle bydd y boblogaeth yn disodli'i hun, ynghyd â chynnydd mewn disgwyliad oes. Erbyn 2019, rhagamcenir y bydd poblogaeth Cymru yn cynyddu 5.0% i 3.16 miliwn. Rhagamcenir y bydd nifer y plant yn aros yn gyson dros yr un cyfnod, ond rhagamcenir y bydd nifer y bobl sy'n 85 oed a'n hŷn yn cynyddu 29.0% o 74,000 yn 2009 i 95,000 yn 2019. Rhagamcenir y bydd nifer y bobl sy'n 65 i 84 oed yn cynyddu 24% o 477,000 i 591,000.

4.2. Dengys y tablau isod amcanestyniadau diweddaraf y newidiadau demograffig ym mhob grŵp oedran yng Nghymru dros y deng mlynedd nesaf.



	Plant	19-64 oed	65-84 oed	85+ oed	Cyfanswm
2009	671,000	1,786,000	477,000	74,000	3,008,000
2019	671,000	1,800,000	591,000	95,000	3,157,000



4.3. Mae'r ffeithiau allweddol canlynol yn helpu i roi'r ddadl talu am ofal yn ei chyd-destun:

- Bydd tua thraean yr holl ddynion a hanner yr holl ferched yn datblygu'r angen am ofal a chymorth hirdymor ar ryw adeg pan fyddant dros 65 oed.
- Ar sail cyfraddau defnyddwyr cyfredol, disgwyliwn y bydd angen cymorth gwasanaethau gofal cymdeithasol ar bron 91,000 o bobl dros 65 oed yng Nghymru erbyn 2031.
- Mae gennym boblogaeth sy'n heneiddio. Yn yr 20 mlynedd nesaf, bydd nifer y bobl dros 85 oed yng Nghymru yn fwy na dyblu i 143,000 a bydd nifer y bobl dros 100 oed bedair gwaith yn fwy, sef mwy na 2,000.
- Mae disgwyliad oes unigolyn sy'n 65 oed wedi cynyddu 5.1 o flynyddoedd i ddynion a bron 3.5 o flynyddoedd i ferched yng Nghymru ers 1981
- Mae nifer y bobl o oedran gweithio o gymharu â nifer y bobl dros 65 oed eisoes wedi lleihau o 5.3 i 1 yn 1951 i 3.2 i 1 yn 2009.
- Rhagamcenir y bydd y gymhareb rhwng pobl sy'n 20-64 oed a'r rheini sy'n 65 oed a'n hŷn yn gostwng o'i lefel gyfredol sef 3.2 i 1, i lefel 2 i 1 yn 2031.

4.4. Bydd patrymau sy'n newid o ran symudedd cymdeithasol hefyd yn cael effaith ar anghenion gofal, yn arbennig mewn ardaloedd gwledig. Mae'r ardaloedd hyn yn wynebu heriau penodol wrth i fwy o bobl hŷn ddewis ymddeol yno, ac wrth i fwy o bobl iau symud i'r dinasoedd i gael addysg a gwaith.

5. Disgwyliadau o ran gofal a chymorth

5.1. Mae disgwyliadau sy'n newid hefyd yn rhoi pwysau ar y system gyfredol o dalu am ofal. Yn 1948, pan sefydlwyd y Wladwriaeth Les, roedd disgwyliadau cymdeithasol ynghylch anabledd a heneiddio yn wahanol iawn i'r disgwyliadau cymdeithasol yn yr oes sydd ohoni. Roedd gan bobl anabl lai o hawliau nag sydd ganddynt yn awr, a thybiwyd y byddai merched yn aros gartref i ofalu am eu teuluoedd, yn cynnwys perthnasau hŷn yr oedd angen gofal a chymorth arnynt. Oherwydd hyn, ni chynhwyswyd gofal cymdeithasol yn y broses o greu'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (GIG). Dim ond i bobl nad oedd ganddynt deulu ac na allent fforddio gofalu amdanynt eu hunain y disgwyliwyd i'r wladwriaeth roi cymorth.

5.2. Mae strwythurau teuluoedd a phatrymau gofal yn wahanol iawn heddiw. At hynny, mae gennym ddisgwyliadau gwahanol iawn o wasanaethau cyhoeddus yn gyffredinol, ac o ofal cymdeithasol yn arbennig. Mae pobl yn disgwyl cael dewis gwell a mwy o reolaeth dros eu bywydau eu hunain na'r cenedlaethau blaenorol. Mae pobl anabl o bob oed wedi ymgyrchu'n llwyddiannus i gael mwy o hawliau, cymorth gwell iddynt hwy eu hunain a'u gofalwyr, a gwasanaethau o safon uwch. Mae pobl am gael system sy'n diwallu eu hanghenion waeth faint yw eu hoed a waeth beth fo'u hamgylchiadau personol, ac sy'n cydnabod y gall blaenoriaethau pobl newid yn ystod eu bywydau.

6. Costau cynyddol gofal a chymorth

6.1. Mae newidiadau demograffig, ynghyd â disgwyliadau a galw cynyddol ar y system ofal, yn debygol o arwain at fwy o faich ariannu dros yr 20 mlynedd nesaf. Dengys amcanestyniadau ariannol hirdymor Trysorlys EM fod costau gofal hirdymor yn mynd i gynyddu 17% erbyn 2027/08. Mae Is-adran Rhagweld yr Adran Gwaith a Phensiynau wedi awgrymu, ymhen 20 mlynedd, y gallai cost budd-daliadau anabledd i bobl dros 65 oed yng Nghymru, Lloegr a'r Alban gynyddu bron 50%. Mae'n debygol y bydd cost ychwanegol gofal a chymorth yn anghynaliadwy oni chymerwn y camau angenrheidiol nawr i sicrhau bod modd lleddfu pwysau yn y dyfodol.

6.2. Bydd methu â sicrhau sail ariannol fwy cynaliadwy i'r system gofal a chymorth yn debygol o gynyddu'r baich ar ofalwyr di-dâl hefyd, gan beri i bobl golli allan ar ofal a chymorth hyd nes bydd eu hanghenion yn mynd yn ddifrifol. Yn ogystal â chael effaith negyddol ar eu hansawdd bywyd, gallai hefyd gynyddu'r angen am ymyriadau mwy costus yn ddiweddarach.

7. Beth yw'r system gyfredol o dalu am ofal?

7.1. Mae'r system gofal a chymorth yng Nghymru wedi datblygu dros sawl blwyddyn, ond mae wedi'i gwreiddio yn y Wladwriaeth Les a sefydlwyd yn 1948. Ynghyd â sefydlu'r GIG, daeth y Ddeddf Cymorth Gwladol i rym yn 1948, sy'n ddeddfwriaeth nodedig. O dan y Ddeddf hon, roedd yn rhaid i awdurdodau lleol ddarparu llety preswyl sylfaenol i bobl anabl a phobl hŷn nad oedd ganddynt unrhyw deulu neu na allent fforddio gofalu amdanynt eu hunain. Fodd bynnag, ni chynhwyswyd gofal cymdeithasol yn y broses o greu'r GIG. Ymestynnodd deddfwriaeth bellach dros ddegawdau canlynol gwmpas gwasanaethau gofal

cymdeithasol i bobl anabl a phobl hŷn, ond codwyd tâl am y gwasanaethau hyn bob amser ac nid oeddent am ddim pan y'u darparwyd, fel gwasanaethau'r GIG.

7.2. Mae'r system budd-daliadau lles hefyd wedi datblygu dros y 60 mlynedd diwethaf, ond yn annibynnol ar y system gofal cymdeithasol. Tra bo angen unigolyn am ofal a chymorth cymdeithasol yn cael ei asesu gan awdurdodau lleol, mae'n rhaid i unigolion wneud cais am fudd-daliadau anabledd drwy'r system fudd-daliadau, a weinyddir gan Lywodraeth ganolog. Tra bo Llywodraeth Cynulliad Cymru yn gyfrifol am wasanaethau cymdeithasol, ac awdurdodau lleol yn gyfrifol am eu darparu, cyfrifoldeb Llywodraeth y DU yw budd-daliadau lles o hyd. Mae hyn hefyd yn golygu bod yr arian ar gyfer gofal cymdeithasol a budd-daliadau lles yn cael ei ddyrannu ar sail wahanol.

7.3. Gellir crynhoi'r system gyfredol o ddyrannu gwasanaethau gofal a chymorth i unigolion fel a ganlyn:

Asesu

7.4. Os ymddengys bod angen gofal ar rywun, mae'n ofynnol i awdurdodau lleol, o dan y gyfraith, asesu ei anghenion gofal a phenderfynu a ddylid darparu gwasanaethau gofal iddo ai peidio. Asesiad ar y cyd fydd hwn rhwng y meysydd iechyd a gofal cymdeithasol, er mwyn nodi anghenion unigolyn a sut y cânt eu diwallu. Mae hefyd yn ofynnol i awdurdodau lleol, o dan y gyfraith, asesu anghenion gofalwyr a phenderfynu a ddylid darparu gwasanaethau gofal iddynt ai peidio.

Gofal iechyd parhaus

7.5. Darperir gofal iechyd hirdymor pan fernir bod anghenion unigolyn mor sylweddol, cymhleth, difrifol neu anrhagweladwy fel eu bod yn anghenion iechyd y dylai'r GIG eu rheoli. Gelwir hyn yn 'ofal iechyd parhaus' a gellir ei ddarparu yn yr ysbyty, mewn cartref gofal sydd wedi'i gofrestru i ddarparu gofal nyrsio, neu yng nghartref yr unigolyn. Waeth ymhle y'i darperir, y GIG fydd yn talu cost lawn y gofal; os caiff ei ddarparu yn yr ysbyty neu mewn cartref gofal gyda nyrsio, telir y costau llety hefyd.

Gofal nyrsio

7.6 Os nad yw unigolyn yn gymwys i gael gofal iechyd parhaus ond bod angen gofal arno gan nyrs gofrestredig mewn cartref preswyl, bydd y GIG yn rhoi cyfraniad wythnosol (£119.66 yr wythnos ar hyn o bryd) tuag at gost y gofal nyrsio. Caiff agweddau eraill ar anghenion gofal a llety unigolyn eu hasesu gan ddefnyddio'r system a ddisgrifir yn y paragraffau canlynol.

Gofal preswyl

7.7 Mae'n ofynnol i awdurdodau lleol, o dan y gyfraith, godi tâl am y gofal personol a'r llety a ddarperir ganddynt i bobl sydd angen gofal cymdeithasol preswyl hirdymor. Mae hyn yn cynnwys pethau fel eu helpu i gael bath, bwyta a mynd o le i le. Mae'r awdurdod lleol yn cynnal asesiad o allu unigolyn i dalu am ei ofal yn unol â chanllawiau cenedlaethol a gyhoeddwyd gan Lywodraeth y Cynulliad i sicrhau bod

taliadau ledled Cymru mor gyson â phosibl. O dan y canllawiau hyn, caiff cyfraniad unigolyn at ei gostau llety a gofal ei asesu drwy ystyried ei incwm (gan gynnwys y rhan fwyaf o fudd-daliadau a phensiynau) a'i gyfalaf (fel arbedion, buddsoddiadau a gwerth unrhyw eiddo y mae'n berchen arno). Pan fydd gan unigolyn gyfalaf o fwy na £22,000 disgwylir iddo dalu cost lawn ei lety a'i ofal. Os bydd ganddo gyfalaf o rhwng £20,750 a £22,000, bydd yn cyfrannu at ei ofal ar raddfa symudol. Ond bydd y rhai hynny sydd â chyfalaf o £20,750 neu lai yn cael cymorth ariannol gan eu hawdurdod lleol tra'n cyfrannu pa incwm bynnag a gânt, fel y tybir ei bod yn briodol.

7.8 Mae gan unigolyn yr hawl i aros mewn llety drutach, neu i ddewis llety o safon uwch neu wasanaethau ychwanegol, y tu hwnt i'r hyn y byddai ei awdurdod fel arfer yn talu amdano. O dan amgylchiadau o'r fath, rhaid i drydydd parti (fel aelod o'r teulu) fod yn barod i dalu'r gwahaniaeth. Gelwir hyn yn daliad ychwanegol gan drydydd parti. Ni ellir gwneud cais am daliadau ychwanegol i dalu am lety neu wasanaethau sydd â'r nod o ddiwallu anghenion asesedig unigolyn.

Taliad gohiriedig

7.9 Mae eiddo y mae preswylydd yn berchen arno lle nad oes priod, partner neu berthynas dibynnol yn byw, yn rhan o'r asesiad o allu'r unigolyn hwnnw i gyfrannu at gost gofal preswyl. Fodd bynnag, ni chaiff yr eiddo ei gynnwys yn yr asesiad am y 12 wythnos gyntaf. Gellir cynnig cynllun taliad gohiriedig i unigolion, fel bod yr awdurdod yn codi arwystl cyfreithiol ar eiddo'r unigolyn ac yn cyfrannu at gostau gofal a llety preswyl yr unigolyn hwnnw am oes y cynllun. Pan gaiff yr eiddo ei werthu, bydd yr awdurdod yn adennill y swm y mae wedi'i wario ar gostau gofal.

Treuliau personol

7.10 Bydd preswylwyr cartrefi gofal, a ariennir gan awdurdodau lleol, yn cyfrannu'r rhan fwyaf o'u hincwm tuag at ffioedd gofal, ond caniateir iddynt gadw swm bach (y Lwfans Treuliau Personol - sy'n £22.00 yr wythnos ar hyn o bryd) at ddefnydd personol.

Gofal cartref a gwasanaethau cymorth

7.11 Mae'r gyfundrefn codi tâl ar gyfer gofal cartref a gwasanaethau cymorth yn gweithredu mewn ffordd wahanol i'r gyfundrefn ar gyfer gofal preswyl. Yn hanesyddol, roedd gan awdurdodau lleol y disgresiwn i benderfynu a ddylid codi tâl a faint y dylid ei godi, a golyga hyn fod defnyddwyr gwasanaethau yn talu lefelau gwahanol yn ôl lle maent yn byw. Fodd bynnag, mae canllawiau statudol yng Nghymru yn ei gwneud yn ofynnol i'r incwm sydd ar ôl gan unigolyn bob wythnos, ar ôl iddo gyfrannu at gost ei ofal, fod yr un faint â chymhorthdal incwm, ynghyd â 35% ychwanegol. Mae gan bobl yr hawl i eithrio 10% ychwanegol o'i hincwm rhag yr asesiad codi tâl i helpu gyda'r costau byw ychwanegol sy'n gysylltiedig ag anabledd neu gyflwr iechyd. Mae Llywodraeth y Cynulliad wedi cyflwyno Mesur y Cynulliad yn ddiweddar i greu dull mwy cyson a thecach o ymdrin â lefelau codi tâl ledled Cymru. Os cytunir ar y ddeddfwriaeth newydd hon, bwriadwn gyflwyno, fel cam cyntaf o fis Ebrill 2011, becyn o welliannau yn cynnwys uchafswm o £50 yr wythnos am bob gwasanaeth dibreswyl, cludiant am ddim i ganolfannau dydd ac eithrio pobl rhag asesiadau ariannol o fudd-daliadau anabledd penodol.

7.12 Yn ogystal â hyn, mae Llywodraeth y Cynulliad yn darparu amrywiaeth o fudd-daliadau - fel Lwfans Gweini, Lwfans Gofalwyr, Lwfans Byw i'r Anabl a'r Gronfa Byw'n Annibynnol - a all helpu i gefnogi unigolion i fyw'n annibynnol, yn aml gyda chymorth perthnasau a ffrindiau sy'n gofalu amdanynt.

Ffeithiau allweddol am bwy sy'n derbyn gofal a chymorth

- Mae tua 82,000 o bobl yn derbyn gofal cymdeithasol a ariennir gan yr awdurdod lleol. O blith y rhain, mae tua 68,000 yn derbyn gofal cymunedol a 15,000 yn derbyn gofal preswyl. Mae 12,000 o bobl yn derbyn gofal nyrsio a ariennir gan y GIG.
- Yn fras, mae 59,000 (73%) o ddefnyddwyr dros 65 oed, ac anabledd corfforol neu nam ar y synhwyrau yw'r prif reswm dros y ffaith bod angen gofal arnynt.
- Mae dros 125,000 o bobl yn cael Lwfans Gweini yng Nghymru.
- Caiff tua 6,000 o Grantiau Cyfleusterau i'r Anabl eu talu bob blwyddyn i addasu cartrefi yng Nghymru, sef cyfanswm o £38 miliwn.
- Mae tua 2,000 o bobl yn cael cymorth o dan y Gronfa Byw'n Annibynnol yng Nghymru ar hyn o bryd, sef £455 yr wythnos ar hyn o bryd.
- Mae bron 32,000 o bobl yn cael Lwfans Gofalwyr yng Nghymru, sef £50-£55 yr wythnos ar hyn o bryd.
- Mae 42,000 o bobl yn defnyddio gwasanaethau gofal yn y cartref neu wasanaethau gofal dydd yng Nghymru ar hyn o bryd. Codir tâl ar tua 14,000 o'r bobl hyn am y gwasanaethau a ddarperir iddynt.

Gofalwyr

Dangosodd Cyfrifiad 2001 ledled Cymru a Lloegr fod bron 340,000 o ofalwyr yng Nghymru (mwy nag 1 o bob 9 o bobl). O'r rhain, mae tua 89,000 yn darparu mwy na 50 awr o ofal yr wythnos.

Mae gan Gymru gyfran uwch o ofalwyr nag unrhyw ranbarth yn Lloegr (11.8 y cant neu 339,833 o ofalwyr). Mae gan Gymru hefyd y gyfran uchaf o bobl â salwch cyfyngus hirdymor (23.3 y cant) a lefel o anabledd a salwch parhaol ymhlith y boblogaeth economaidd anweithgar rhwng 16 a 74 oed sy'n uwch nag unrhyw ranbarth yn Lloegr (sef 9.2 y cant).

8. Talu am ofal yng Nghymru: y ddadl hyd yn hyn

8.1. Nid yw diwygio system sydd wedi datblygu dros 60 o flynyddoedd yn mynd i fod yn dasg hawdd. Bydd yn cynnwys gwneud penderfyniadau anodd, a bydd angen sicrhau consensws gwleidyddol er mwyn i unrhyw broses ddiwygio gael gobaith o lwyddo yn yr hirdymor. Er mwyn ein helpu i gyflawni hyn yng Nghymru, cynhaliodd Llywodraeth Cynulliad Cymru raglen ymgynghori ac ymgysylltu fawr yn gynharach eleni ar gyfeiriad cyffredinol y broses ddiwygio. Mae canlyniadau'r ymgynghoriad hwnnw wedi helpu i lywio safbwynt Llywodraeth y Cynulliad ar y cynigion a nodir yn y Papur Gwyrdd hwn.

8.2. Cynhaliwyd y rhaglen ymgynghori ac ymgysylltu rhwng mis Tachwedd 2008 a mis Chwefror 2009. Cynhaliwyd dau ddigwyddiad i randdeiliaid, yng Nghaerdydd a Llandudno, a chyfleoedd i'r cyhoedd ymateb drwy'r post, e-bost neu mewn digwyddiadau a drefnwyd gan randdeiliaid lleol. Cyhoeddir adroddiadau ar ddigwyddiadau'r rhanddeiliaid a dadansoddiad o'r ymatebion ymgynghori ar y wefan: http://www.taluamofalyngnghymru.net.

8.3. Sefydlodd Llywodraeth Cynulliad Cymru Grŵp Cynghori Rhanddeiliaid hefyd i ystyried opsiynau polisi ar gyfer sefydlu trefniadau tecach a mwy cynaliadwy ar gyfer talu am ofal. Roedd aelodau'r Grŵp Cynghori yn cynnwys sefydliadau ac unigolion a oedd yn cynrychioli amrywiaeth o fuddiannau rhanddeiliaid, yn cynnwys pobl anabl, defnyddwyr gwasanaethau a gofalwyr, llywodraeth leol a'r maes iechyd, perchenogion cartrefi gofal a phobl hŷn. Cyfarfu'r Grŵp Cynghori bedair gwaith rhwng mis Ionawr a mis Ebrill 2009. Cyhoeddwyd ei adroddiad ym mis Gorffennaf 2009.

8.4. Teimlai aelodau o'r Grŵp Cynghori yn gryf y dylai unrhyw system newydd o dalu am ofal fod yn seiliedig ar yr egwyddor bod darparu gofal cymdeithasol i bawb sydd ei angen yn ddyletswydd cymdeithas yn ei chyfanrwydd. Gwnaethant argymell y dylai costau gofal, felly, fod yn risg gyfun i'r boblogaeth gyfan, ac y dylai taliadau gan bawb mewn cymdeithas ariannu unrhyw system ddiwygiedig, yn ôl eu gallu i dalu, yn bennaf yn ystod eu bywyd gwaith. O blith y modelau amrywiol a gynigiwyd yn y ddadl talu am ofal, roedd y Grŵp Cynghori yn ffafrio Cronfa Yswiriant Gwladol wedi'i diwygio'n sylfaenol, sy'n cwmpasu iechyd a gofal cymdeithasol, ac yn canolbwyntio'n bennaf ar hybu lles ac annibyniaeth. Fodd bynnag, mae Yswiriant Gwladol yn faes nad yw wedi'i ddatganoli, a byddai angen i unrhyw broses ddiwygio o'r natur hon gael ei harwain gan Lywodraeth y DU a bod yn gymwys i'r DU gyfan.

9. Egwyddorion

9.1. Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn cefnogi'r set ganlynol o egwyddorion a luniwyd ac a argymhellwyd gan Grŵp Cynghori Rhanddeiliaid Cymru ar Dalu am Ofal.

9.2. Credwn fod angen i unrhyw system newydd o dalu am ofal:

- fod yn benodol am hawliau dynol;
- cefnogi'r unigolyn ar adeg pan fo angen y cymorth arno;
- sicrhau bod penderfyniadau am ddarparu gofal yn cael eu gwneud ar sail anghenion yr unigolyn ac nid ar sail adnoddau ariannol neu asedau eraill yr unigolyn neu berthnasau;
- bod yn syml, h.y. yn hawdd i ddefnyddwyr a darparwyr ei deall a'i gweithredu;
- hyrwyddo cynhwysiant cymdeithasol ac annibyniaeth;
- hyrwyddo triniaeth deg a chyfartal;
- hyrwyddo cyfranogiad yr unigolyn a'r broses o'i rymuso;

- sicrhau bod darparwyr yn atebol a bod y rhai hynny sy'n manteisio ar y gwasanaeth yn gallu mynegi eu barn a'u cwynion;
- bod yn fforddiadwy ac yn gynaliadwy yn ariannol, a dangos gonestrwydd o ran y defnydd o gronfeydd cyhoeddus.

9.3. Mewn ymateb i'r cynigion a geir yn y Papur Gwyrdd hwn fe'ch gwahoddir i roi sylwadau ar i ba raddau y mae pob opsiwn yn adlewyrchu'r egwyddorion hyn.

Cwestiwn Ymgynghori

1. I ba raddau y mae pob un o'r opsiynau ar gyfer diwygio a nodir yn y Papur Gwyrdd hwn yn adlewyrchu'r egwyddorion ategol a argymhellwyd gan Grŵp Cynghori Rhanddeiliaid Cymru?

Pennod 2

Trawsnewid Gwasanaethau Cymdeithasol Yng Nghymru

1. Cyflwyniad

1.1. Yng Nghymru, mae gennym fodel unigryw a chredwn mai awdurdodau gwasanaethau cymdeithasol integredig sydd wedi'u gwreiddio mewn llywodraeth leol yw'r ffordd ymlaen. Mae ein gweledigaeth ar gyfer gwasanaethau yn seiliedig ar y syniad o wasanaeth integredig sy'n seiliedig ar y teulu, sy'n hyrwyddo annibyniaeth, camau atal ac ymyriadau cynharach fel bod gwasanaethau diogel a hyblyg o safon uchel ar gael i'r rhai sydd eu hangen. Mae'r bennod hon yn nodi'r cyd-destun ar gyfer ystyried modelau talu am ofal yn y dyfodol ym Mhennod 3. Mae'n nodi'r cyd-destun strategol a pholisi ar gyfer gwasanaethau cymdeithasol yng Nghymru, y ddeddfwriaeth a'r polisïau a gaiff eu datblygu i wella'r broses o ddarparu gwasanaethau, yr heriau allweddol sydd o'u blaen a'r modd y bydd Comisiwn Annibynnol yn llywio gwasanaethau cymdeithasol yn y degawd nesaf.

2. Strategaeth ar gyfer gwasanaethau cymdeithasol yng Nghymru

2.1. Cyhoeddwyd y Strategaeth ar gyfer gwasanaethau cymdeithasol yng Nghymru *Bywydau Bodlon, Cymunedau Cefnogol* yn 2007. Fe'i datblygwyd ar y cyd â rhanddeiliaid allweddol yn cynnwys llywodraeth leol.

2.2. Prif themâu'r Strategaeth yw:

- yr angen i wasanaethau cymdeithasol gael **arweinyddiaeth atebol, gref** yn wleidyddol, yn broffesiynol ac yn rheolaethol;
- datblygu'r gallu i newid ac **atgyfnerthu'r gweithlu** ar gyfer anghenion modern;
- sicrhau bod **llais y defnyddiwr a'r gofalwr** yn cyfrif;
- symleiddio dulliau **rheoli perfformiad** drwy ganolbwyntio ar ganlyniadau, gwella systemau rheoli perfformiad a gwybodaeth am berfformiad, mireinio prosesau caffael ac adolygu rheoliadau;
- hyrwyddo **partneriaethau cryfach** sy'n gweithio ar draws ffiniau sefydliadol ac sy'n sicrhau bod y dinesydd yn ganolog i'w gwaith;
- defnyddio dulliau **cydweithio** fel modd i **sicrhau mwy o effeithlonrwydd** ac effeithiolrwydd wrth ddarparu gwasanaethau;
- gweithio i **atgyfnerthu cymunedau.**

2.3. Noda'r Strategaeth rai egwyddorion allweddol sy'n ategu ein sefyllfa:

- **llywodraeth leol fydd yn gyfrifol** am wasanaethau cymdeithasol o hyd gan weithio gydag eraill i gefnogi pobl agored i niwed a hyrwyddo cynhwysiant;

- bydd gwasanaethau cymdeithasol oedolion a phlant yn **sicrhau un arweinydd proffesiynol** fel bod teuluoedd yn cael eu cefnogi'n briodol;
- mae angen i wasanaethau **gael ffocws newydd ar atal ac ymyrryd yn gynharach**, yn hytrach na chanolbwyntio ar y rhai hynny sydd â'r anghenion dwysaf;
- dylai awdurdodau lleol barhau i fod yn brynwyr ac yn ddarparwyr gwasanaethau. Fodd bynnag, mae'n rhaid i gomisiynwyr chwarae rôl fwy gweithredol o ran **helpu i lywio'r farchnad gymysg** o ran gofal preifat, cyhoeddus a gwirfoddol;
- mae'r Strategaeth yn cydnabod yr angen i weithlu amrywiol gyflwyno'r modelau gwasanaeth newydd ond sy'n cynnal **gwaith cymdeithasol fel galwedigaeth hyfforddedig a medrus iawn** a ategir gan amrywiaeth o rolau;
- **rhaid i wasanaethau cymdeithasol weithio'n agos â sectorau eraill** fel gwasanaethau tai, ac yn arbennig gyda'r GIG.

3. Ymgyrraedd at ragoriaeth a gwelliannau

3.1. Ceir tystiolaeth o wella ym maes gwasanaethau cymdeithasol a gofal cymdeithasol yng Nghymru - dyma fu neges allweddol adroddiadau Prif Arolygwyr olynol. Dyma hefyd neges *Learning from the Journey* (AGGCC/SAC 2009), yr adolygiad o ddeng mlynedd o adolygiadau ar y cyd yng Nghymru a gyhoeddwyd gan Arolygiaeth Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru a Swyddfa Archwilio Cymru. Fodd bynnag, amlyga'r adroddiad hwnnw y canlynol hefyd:

- bod angen gwella'r broses o asesu a rheoli gofal, o ran amseroldeb ac yn arbennig o ran ansawdd y profiad a rheoli risg oherwydd eu bod yn darparu'r porth i helpu;
- er bod rhywfaint o gynnydd da wedi'i wneud o ran **amrywiaeth y gwasanaethau a ddarperir a gallu'r gwasanaethau hyn i ategu annibyniaeth yn dda**, mae angen cyflawni hyn yn fwy cyson o fewn awdurdodau a ledled Cymru;
- mae arwyddion calonogol bod gwelliannau o ran **y modd y caiff gwasanaethau cymdeithasol a gofal cymdeithasol eu harwain**, a cheir gwelliannau pwysig o ran trefniadau rheoli perfformiad yn ystod y blynyddoedd diwethaf. Mae'r ffocws ar faterion yn ymwneud â'r gweithlu yn fwy cyson, ond mae angen gwneud rhagor o gynnydd o ran comisiynu, cynllunio a rheoli perfformiad.

3.2. Caiff prosesau gwella a newid eu sbarduno gan **arweinyddiaeth wleidyddol a phroffesiynol**, a gallu arweinwyr i droi gweledigaeth yn atebolrwydd ac yn bolisi ymarferol. Noda *Learning from the Journey* elfennau arweinyddiaeth sy'n gysylltiedig â gwelliannau parhaus:

- arweinwyr **yn dangos pwysigrwydd gwasanaethau cymdeithasol a gofal cymdeithasol** i'r gymuned;

- arweinwyr **yn ail-lunio gwasanaethau i ddiwallu anghenion y gymuned yn well** a sicrhau consensws ar gyfer eu gweledigaeth;
- rheolwyr **yn troi'r weledigaeth yn flaenoriaethau** gan barhau i ganolbwyntio ar y rhain;
- arweinwyr a rheolwyr yn sicrhau bod **cynlluniau ariannol wedi'u halinio â strategaethau gwasanaeth**;
- **moderneiddio seilwaith i gyflawni'r newid** h.y. comisiynu, sgiliau rheoli perfformiad, prosiect a risg a gallu ac adnoddau;
- **sicrwydd ansawdd llym** i sicrhau safonau gofal da sy'n arwain at ganlyniadau cadarnhaol i bobl;
- **canolbwyntio fwy o lawer ar yr hyn sydd i'w gyflawni** yn hytrach na phwy sy'n ei gyflawni;
- denu a chefnogi **staff proffesiynol da** ac ymdrin ag anghymwyster;
- **dysgu oddi wrth bobl sy'n defnyddio gwasanaethau a staff rheng flaen, a'u cynnwys**, gyda chymorth a chyngor y Fforwm Polisi Cenedlaethol;
- **gweithredu mewn partneriaeth** yn y cyngor a thu hwnt iddo i ddarparu gwasanaethau a gomisiynir ar y cyd.

4. Arwain gwasanaethau cymdeithasol

4.1. Nododd *Bywydau Llawn, Cymunedau Cefnogol* ein gweledigaeth ar gyfer Gwasanaethau Cymdeithasol fel gwasanaethau craidd o fewn llywodraeth leol a phwysleisiodd fod yn rhaid i arweinyddiaeth ac atebolrwydd gael eu cyflawni'n gadarn fel bod gan wasanaethau y systemau rheoli clir a'r arweinyddiaeth broffesiynol gadarn sy'n ofynnol.

4.2. Nododd ein canllawiau statudol ar rôl ac atebolrwydd y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol (Llywodraeth Cynulliad Cymru, Mehefin 2009): “bydd cyflawni gweledigaeth Llywodraeth y Cynulliad ar gyfer Gwasanaethau Cymdeithasol yn dibynnu ar arweinyddiaeth gadarn, atebol ac allanol". Noda'r canllawiau rôl allweddol y broses o arwain y gwasanaeth - o ran pennu diwylliant gwasanaethau, sicrhau camau diogelu cadarn, arwain dull allanol o ddysgu oddi wrth eraill a chwilio am gyfleoedd i weithio mewn partneriaeth ac i gydweithio. Mae hefyd yn golygu bod yn weladwy yn y rhwydweithiau ehangach y mae cyd-ddatblygiadau yn dibynnu arnynt. Mae rôl y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol yn un y mae'n rhaid iddi fod yn gredadwy o fewn y gwasanaeth ac ymhlith partneriaid a dyna pam nad ydym yn dilyn arferion y gorffennol ac wedi nodi rhai cymwyseddau ar gyfer penodi i'r swydd.

5. Gweithlu

5.1. Mae'n rhaid i'r gweithlu gofal cymdeithasol fod yn werthfawr, wedi'i hyfforddi'n briodol ac yn ddigonol i ateb galw'r gwasanaeth. Mae angen proffil uwch ar y maes gofal cymdeithasol, a chydag amrywiaeth o gyfleoedd hyfforddiant ar gael i ddatblygu staff, gall recriwtio a chadw staff o ansawdd da, yn ei dro, ddod yn haws

nag ydyw ar hyn o bryd. Mae *Bywydau Bodlon* yn nodi nifer o gamau gweithredu i fynd i'r afael â'r gwaith o ddatblygu'r gweithlu. Mae hyn yn cynnwys rhoi Cynllun Gweithredu'r Gweithlu ar waith y mae Cyngor Gofal Cymru wedi'i ddatblygu.

5.2. Mae'n rhaid i ni nawr adeiladu ar waith a wnaed hyd yn hyn, a chael dyheadau uwch i sicrhau'r hyder cyhoeddus a phroffesiynol mwyaf posibl drwy reoleiddio'r gweithlu gofal cymdeithasol, lefelau cymhwysedd y gweithlu cyfan, ac arferion a gweithfannau sy'n adlewyrchu'r gwerthoedd a nodwyd yng Nghodau Ymarfer Cyngor Gofal Cymru.

5.3. Byddwn hefyd yn adeiladu ar waith y Grŵp Gorchwyl a Gorffen yn 2003. Mae'r broses o roi'r argymhellion ar waith wedi cyfrannu at y gwelliannau a gydnabyddir yn "Learning from the Journey". Rhoddodd adroddiad Cymdeithas y Cyfarwyddwyr Gwasanaethau Cymdeithasol, "Proffesiwn i'w Werthfawrogi" ysgogiad i wella ymhellach a dengys y ddwy ddogfen yr hyn y gellir ei gyflawni pan weithiwn gyda'n gilydd ar lefelau lleol, rhanbarthol a chenedlaethol yng Nghymru.

5.4. Noda ein Cynllun Gweithredu'r Gweithlu sy'n ategu'r broses o roi'r strategaeth 10 mlynedd ar waith, sef "Bywydau Llawn, Cymunedau Cefnogol", y blaenoriaethau allweddol ar gyfer y cam gwella nesaf ac mae'n mynd i'r afael â hwy.

5.5. Bydd angen i unrhyw newidiadau i fodelau gwasanaeth neu adnoddau ystyried y goblygiadau o ran y gweithlu, yn enwedig cynaliadwyedd, cymysgedd sgiliau, cymhwysedd, diogelwch cyhoeddus ac atebolrwydd proffesiynol. Mae'n bwysig sicrhau'r canlynol:

- bydd gofal cymdeithasol yn ddewis gyrfa;
- mae llwybrau gyrfa clir o fewn y sector a thrwyddo;
- caiff y gweithlu ei gynllunio'n well drwy'r sector;
- caiff dysgu priodol a gwell ei ddarparu.

5.6. Rydym ar fin sefydlu Grŵp Gorchwyl y Gweithlu i lywio'r gwaith hwn yn y dyfodol i hyrwyddo gwell dealltwriaeth o waith cymdeithasol, cefnogi rhagoriaeth yn ymarferol ac, ynghyd â Chyngor Gofal Cymru, ddatblygu llwybrau gyrfa a ategir gan fframweithiau hyfforddiant a chymwysterau proffesiynol.

6. Comisiynu a phartneriaethau

6.1. Nododd y Strategaeth Gwasanaethau Cymdeithasol fod yn rhaid i “gomisiynu da gan wasanaethau cymdeithasol fod yn seiliedig ar ddadansoddiad cadarn o anghenion a bod yn ystyrlon o anghenion lleol ac amodau'r farchnad. Rhaid iddo fanteisio ar y cyfleoedd ar gyfer ymuno ag awdurdodau lleol eraill a gwasanaethau cyhoeddus eraill; cynnwys partneriaeth ddiffuant â defnyddwyr gwasanaethau; darparwyr preifat a gwirfoddol a sicrhau'r cydbwysedd cywir rhwng gwasanaethau prif ffrwd ac arbenigol". Bydd comisiynu yn ffactor pwysig sy'n sbarduno'r gwaith o ddatblygu gwasanaethau yn y dyfodol.

6.2. Mae comisiynu gofal cymdeithasol yn cynnwys gwneud penderfyniadau am ba wasanaethau sy'n ofynnol i ymateb i anghenion gofal cymdeithasol asesedig plant, pobl ifanc ac oedolion yng Nghymru. Mae hefyd yn cynnwys gwneud penderfyniadau am allu ac adnoddau, lleoliad, cost ac ansawdd gwasanaethau, ynghyd â sut y cânt eu darparu a chan bwy. Mae comisiynu yn cwmpasu'r broses o gynllunio a chaffael gwasanaethau. Mae'n ymwneud â chyflawni cyfrifoldebau statudol y cyngor, a llywio gwasanaethau i ymateb i anghenion gofal cymdeithasol pobl nawr ac yn y dyfodol. Mae hyn yn ei gwneud yn ofynnol i ni ystyried anghenion pobl sy'n prynu eu gofal eu hunain hefyd.

6.3. Rydym yn cyhoeddi Fframwaith Comisiynu newydd o dan Adran 7(1) o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol Awdurdodau Lleol 1970. Mae'r canllawiau statudol hyn ar ffurf safonau y mae disgwyl i awdurdodau lleol eu cyrraedd. Nododd safonau comisiynu'r Fframwaith y meincnod y caiff effeithiolrwydd gwaith comisiynu'r awdurdod lleol ei fesur yn ei erbyn. Mae'r safonau'n canolbwyntio ar ddatblygu cynlluniau comisiynu sy'n seiliedig ar dystiolaeth a'u cyflawni drwy broses gaffael effeithiol. Mae'r Fframwaith yn darparu arfer da hefyd o ran comisiynu a chaffael.

6.4. Rhaid i ni symud yn agosach at wasanaethau a gaiff eu datblygu mewn modd mwy cyson fel cytundeb ar y cyd rhwng pob parti ar draws y sector statudol, y sector gwirfoddol a'r sector preifat, gan weithio i gyflawni casgliad cyffredin, gydag anghenion yr unigolyn wrth wraidd hyn. Mae *Bywydau Bodlon*, *Cymunedau Cefnogol* yn ceisio ategu gwaith cydgysylltiedig ar lefel sefydliadol ac o ran darparu gwasanaethau. Bydd yn arbennig o bwysig sicrhau bod gwaith yn parhau wrth i'r GIG geisio gweithredu ei strwythurau newydd. Mae Llywodraeth y Cynulliad wedi buddsoddi dros £70 miliwn mewn grant Cydweithio ers 2001 i feithrin trefniadau cydweithio rhwng y meysydd iechyd a gofal cymdeithasol. Yn ystod y cyfnod nesaf, mae'n bwysig bod cydweithio yn cael ei ddatblygu ymhellach yng nghyd-destun strwythur newydd y GIG ac y gwneir newid sylweddol. Bydd Rhwydwaith Dysgu a Gwella Cymru Gyfan a'n gofyniad am achos busnes ar gyfer datblygu o leiaf un cynllun yn drefniant partneriaeth ffurfiol ym mhob rhanbarth yn helpu i gyflawni'r nod hwnnw.

6.5. Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn awyddus i hyrwyddo gweithio mewn partneriaeth rhwng awdurdodau lleol a'r GIG i wella ansawdd gwasanaethau. Sicrhawyd bod nodiadau a thempledi ar gael ar gyfer trefniadau partneriaeth ffurfiol a bydd rhaglen ddatblygu ar waith maes o law i ategu partneriaethau lleol. Mae hyn yn bwysig gan nad yw pobl agored i niwed am wynebu gwasanaethau a allai ymddangos yn dameidiog ac yn gymhleth ar adeg pan fyddant mewn angen.

6.6. Un maes gwasanaeth lle mae Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi gofyn am bartneriaethau ffurfiol gyda chyllidebau cyfun yw cyfarpar cymunedol. Mae 11 o bartneriaethau gwasanaeth cyfarpar cymunedol yn gweithredu ledled Cymru bellach gan ddarparu un gwasanaeth i'w trigolion. Mae gan y gwasanaethau hyn ddarlun cliriach o alw ac adnoddau i helpu i ymateb i'r heriau sy'n gysylltiedig â galw cynyddol. Ni ddyblygir ymdrech mwyach a gellir defnyddio adnoddau'n fwy effeithiol. Mae'r gwasanaethau'n gweithredu yn unol ag un fframwaith rheoli perfformiad. Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru am adeiladu ar y rhain ac enghreifftiau eraill o weithio'n dda mewn partneriaeth i ddarparu gwasanaethau di-dor i bobl ag anghenion iechyd a gofal cymdeithasol.

6.7. Mae'r meysydd tai a gofal cymdeithasol yn rhannu rôl bwysig gan mai hwy yw'r pwynt cyswllt cyntaf ar gyfer llawer o bobl mewn angen. Mae gweithio mewn partneriaeth agos rhwng y maes gofal cymdeithasol a gwasanaethau tai yn cefnogi pobl ar draws ystod eang o anghenion ac anableddau, a gall cymorth o ansawdd da sy'n ymwneud â thai helpu i atal neu ohirio gwasanaethau cymorth mwy costus ac ymwthiol. Gall hefyd hyrwyddo statws iechyd gwell neu statws iechyd a gynhelir neu fynediad priodol i wasanaethau.

6.8. Mae'r broses o ddatblygu gwasanaethau Teleofal yng Nghymru yn enghraifft lle mae'r bartneriaeth hon wedi gweithio'n dda. Mae Teleofal yn dod yn elfen gynyddol bwysig o becynnau gofal i bobl ag anghenion cymorth. Mae gwasanaethau Larwm Cymunedol bellach yn defnyddio Teleofal i gefnogi annibyniaeth mwy na 13,000 o bobl hŷn ac agored i niwed yng Nghymru. Mae pob un o'r 22 o awdurdodau lleol yng Nghymru yn darparu gwasanaethau Teleofal bellach, drwy wasanaethau cymdeithasol ac adrannau tai fel rheol ac mewn partneriaeth â Byrddau Iechyd Lleol, ymddiriedolaethau ac asiantaethau'r trydydd sector.

6.9. I blant, mae partneriaethau gydag addysg, y blynyddoedd cynnar, Timau Troseddau Ieuenctid, yr heddlu, y GIG ac amrywiaeth o wasanaethau sy'n ymdrin ag oedolion agored i newid yn hanfodol i sicrhau bod plant yn cael eu hamddiffyn a bod plant mewn angen a phlant sy'n derbyn gofal, a phobl sy'n gadael gofal yn cael eu hamddiffyn a'u cefnogi i gyflawni eu llawn botensial fel oedolion. Mae'n rhaid i wasanaethau cymdeithasol chwarae rhan hollbwysig yn y Partneriaethau Plant a Phobl Ifanc, y Partneriaethau Diogelwch Cymunedol a Phartneriaethau Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Lles Lleol wrth sicrhau bod anghenion y plant mwyaf agored i niwed ac oedolion agored i niwed sy'n rhieni yn cael blaenoriaeth ar yr agenda.

7. Datrysiadau yng Nghymru i heriau yng Nghymru

7.1. O fewn fframwaith pwerau datganoledig o dan Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006, mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn datblygu rhaglen ddeddfwriaethol unigryw ac arloesol i wella gwasanaethau cymdeithasol yng Nghymru.

Gorchymyn Cymhwysedd Deddfwriaethol a Mesur Gofalwyr

7.2. Mae gan Lywodraeth Cynulliad Cymru ymrwymiad yn "Cymru'n Un" i gyflwyno deddfwriaeth ar ofalwyr. Dengys ymgynghoriad ar ein Cynllun Gweithredu Strategaeth Gofalwyr a thystiolaeth arall, er bod arfer da mewn sawl rhan o Gymru, fod meysydd allweddol nad eir i'r afael â hwy'n gyson o hyd ledled Cymru, i'r safon y byddem yn ei dymuno. Mae'r rhain yn cynnwys materion fel yr asesiad o anghenion gofalwyr; y gwaith o ddarparu gwybodaeth hygyrch, berthnasol, gyfredol ac amserol ac ymgysylltu effeithiol rhwng y Gwasanaeth Iechyd ac asiantaethau eraill a gofalwyr fel partneriaid.

7.3. Mae'r Gorchymyn Cymhwysedd Deddfwriaethol i Ofalwyr, a fydd yn darparu'r pwerau angenrheidiol i gyflwyno deddfwriaeth yn y maes hwn, yn ddarostyngedig i gymeradwyaeth derfynol ond mae Llywodraeth y Cynulliad wedi cyhoeddi y bydd ei rhaglen ddeddfwriaethol ar gyfer 2009-10 yn cynnwys Mesur ar Ofalwyr i ddechrau mynd i'r afael â rhai o'r materion hyn.

Codi tâl ar wasanaethau cymdeithasol dibreswyl

7.4. Mae gan Lywodraeth Cynulliad Cymru hefyd ymrwymiad yn “Cymru'n Un” i gyflwyno deddfwriaeth i greu cysondeb yn y ffordd y bydd awdurdodau lleol yn codi tâl ar ddefnyddwyr gwasanaethau am wasanaethau gofal cymdeithasol dibreswyl. Cyflwynwyd Mesur Cynulliad yn gynharach eleni ac os caiff ei gymeradwyo, bydd yn rhoi'r pŵer i Weinidogion Cymru wneud rheoliadau sy'n sicrhau mwy o gysondeb a thegwch o ran codi tâl ar gyfer gwasanaethau cymdeithasol dibreswyl ledled Cymru. Bwriad Llywodraeth y Cynlluniad yw cyflwyno mwy o gysondeb o ran dulliau codi tâl awdurdodau lleol ar gyfer gwasanaethau gofal cymdeithasol dibreswyl, a hynny mewn modd cynyddol, gyda Phecyn Gwella Camau Cyntaf cychwynnol o gamau gweithredu ynghyd â gwelliannau pellach dros amser. Mae'r Pecyn Camau Cyntaf yn ystyried argymhellion grŵp gorchwyl a gorffen rhanddeiliaid, a sefydlwyd i roi cyngor ar opsiynau posibl ar gyfer y Mesur, a'r gwaith ymchwil annibynnol cysylltiedig a wnaed i ategu gwaith y grŵp.

Bydd y Pecyn Camau Cyntaf arfaethedig yn cynnwys:

- Rheoliadau yn nodi **uchafswm tâl wythnosol o £50** ar gyfer yr holl wasanaethau a dderbynnir sydd o fewn cwmpas y Mesur arfaethedig y mae'r awdurdod yn codi tâl amdanynt.
- Rheoliadau yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol **ddiystyru rhai budd-daliadau penodol sy'n gysylltiedig ag anabledd** a ddarperir i'r rheini â lefelau uchel o anabledd wrth asesu'r gallu i dalu tâl rhesymol. Byddai hyn yn ymwneud â diystyru Lwfans Gweini Cyson a Lwfans Anabledd Difrifol yn llawn wrth gynnal asesiadau ar gyfer codi tâl.
- Rheoliadau **yn gwahardd awdurdodau rhag codi tâl am ddarparu cludiant i ganolfannau dydd**. Bydd hyn yn golygu y bydd unigolion sydd angen y gwasanaeth hwn yn yr un sefyllfa â pholisi cronfeydd consesiwn ehangach Llywodraeth y Cynulliad o ddarparu cludiant am ddim i bobl anabl a phobl hŷn.
- Rheoliadau sy'n ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau gyflwyno **gweithdrefn ar gyfer adolygu taliadau**. Bydd y rhain yn nodi manylion y weithdrefn adolygu, gan gynnwys pwy a all ofyn am adolygiad, sut y gellir gofyn am adolygiad, y weithdrefn ar gyfer cynnal adolygiad a therfynau amser perthnasol.

7.5 Cyhoeddodd y Prif Weinidog ar 29 Medi 2009, fwriadau Llywodraeth y DU i gyflwyno trefniadau newydd fel y byddai gofal personol am ddim yn y cartref ar gael i bob oedolyn yn Lloegr sydd â llawer o anghenion gofal o fis Hydref 2010. Bwriedir i hyn ddiogelu cynilion y bobl hynny sydd â'r anghenion gofal mwyaf, gan gynnwys llawer o bobl â demensia difrifol a chlefyd Alzheimer. Drwy gefnogi pob oedolyn â'r anghenion mwyaf i aros yn ei gartref ei hun, nod Llywodraeth y DU yw dileu straen a chostau cyffredinol gofal a chymorth i unigolion er mwyn eu galluogi i fyw'n annibynnol yn hirach. Mae rhagor o fanylion am sut y byddai'r polisi newydd hwn yn gweithredu yn cael eu datblygu ond datgelwyd y byddai'r bobl hynny y mae eu hasesiad o ofal cymdeithasol yn nodi ganddynt anghenion gofal critigol, yn cael budd o ofal am ddim. Disgwylir i 350,000 o bobl yn Lloegr dderbyn gofal personol am ddim a fydd yn costio £400 miliwn y flwyddyn.

7.6 Polisi Llywodraeth Cynulliad Cymru fu sicrhau dull tecach a mwy cyson o godi tâl ar y bobl hynny sy'n derbyn gofal gartref ac yn y gymuned. Sicrhawyd hyn yn gyffredinol i bob un sy'n derbyn gwasanaethau yn hytrach na grŵp penodol. Mae'r polisi wedi arwain at welliannau i'r bobl hynny ar incymau isel yn arbennig ac os cytunir ar ddeddfwriaeth newydd, byddwn yn cyflwyno uchafswm o £50 yr wythnos ledled Cymru yn ogystal â gofynion eraill i sicrhau mwy o gysondeb. Credwn fod ein dull yn decach ac yn fwy buddiol i nifer ehangach o ddefnyddwyr gwasanaethau na defnyddio meini prawf o'r fframwaith asesu gofal unedig ar wahân. Bydd ein dull yn osgoi anghydfodau diangen ar "ffiniau" - er enghraifft gyda'r rhai yr aseswyd bod ganddynt anghenion gofal sylweddol neu yn wir, y rhai y gallent fod yn gymwys i gael gofal iechyd parhaus. Mae hefyd yn dibynnu ar brawf modd ariannol cyson i farnu pwy sy'n talu am ofal yn hytrach na'r broses asesu sy'n canolbwyntio fwy ar yr unigolyn. Mae'r prosesau diwygio yng Nghymru yn costio tua £20 miliwn y flwyddyn - tua'r un faint, yn gymesur, ag yn Lloegr. Er y credwn mai ein polisi ni yw'r un iawn i Gymru, byddem yn croesawu sylwadau ar y ddau ddull gwrthgyferbyniol a ddaeth i law.

Y Mesur Plant a Theuluoedd

7.7 Mae'r Mesur Plant a Theuluoedd yn nodi cyfeiriad clir ar gyfer nod Llywodraeth Cynulliad Cymru o wella ansawdd bywyd a chyfle cyfartal i blant a theuluoedd difreintiedig ledled Cymru. Ymhlith rhai o elfennau allweddol y Mesur mae:

- rhoi dyletswydd ar Weinidogion Cymru i baratoi a chyhoeddi Strategaeth Tlodi Plant newydd i Gymru, a chyhoeddi adroddiad asesu bob tair blynedd;
- rhoi dyletswydd ar gyrff cyhoeddus penodol yng Nghymru i baratoi a chyhoeddi strategaeth i helpu i gyflawni'r nod o ddileu tlodi plant erbyn 2020;
- sicrhau bod gwasanaethau pwysig o ran rhianta a chymorth iechyd a ddarperir ar hyn o bryd drwy Cymorth (Cronfa Gymorth i Blant a Phobl Ifanc) yn parhau i fod ar gael i'r rhai sydd â'r angen mwyaf drwy fframwaith cyfreithiol newydd;
- rhoi dyletswydd ar awdurdodau lleol i sicrhau bod digon o gyfleoedd chwarae ar gael i blant yng Nghymru (cyhyd ag y bo'n rhesymol ymarferol);
- rhoi dyletswydd ar awdurdodau lleol i sicrhau bod plant yn cymryd rhan mewn penderfyniadau awdurdodau lleol am feysydd sy'n effeithio ar eu bywydau;
- galluogi Gweinidogion Cymru i roi dyletswydd ar awdurdodau lleol i sicrhau gofal plant wedi'i dargedu sydd am ddim ac o safon uchel yn unol ag ymrwymiadau “Cymru'n Un”.
- sicrhau cefnogaeth barhaus i gymryd rhan mewn addysg, hyfforddiant a bywyd cymunedol, a helpu pobl ifanc i fanteisio ar gyfleoedd cyflogaeth;

- diwygio'r ffordd y darperir cymorth i blant a theuluoedd agored i niwed drwy greu Timau Integredig Cymorth i Deuluoedd ledled Cymru i helpu plant a theuluoedd sydd ag anghenion cymhleth fel camddefnyddio sylweddau a thrais yn y cartref, ac sydd angen cymorth dwys ac amlddisgyblaethol gan weithwyr proffesiynol medrus. Bydd y timau newydd yn helpu i nodi teuluoedd trafferthus ar gam cynnar a gweithio'n ddwys gyda hwy; a nodi'n gynharach pa blant sydd angen cael eu symud o'r teulu fel bod modd diwallu eu hanghenion y tu allan i'r teulu, gan gynnig dyfodol mwy sefydlog iddynt.

7.8 Bydd y ddeddfwriaeth ar Dimau Integredig Cymorth i Deuluoedd yn cael effaith fawr ar y gwaith o ddarparu gwasanaethau i deuluoedd ag amrywiaeth o broblemau sy'n peri risg i'w plant. Bydd y trefniadau ar gyfer darparu yn cynnwys datblygu llwybrau gyrfa newydd i weithwyr cymdeithasol sy'n arbenigo mewn cymorth rheng flaen a byddant yn canolbwyntio fwy ar arferion, hyfforddiant a datblygiad sy'n seiliedig ar dystiolaeth i weithwyr cymdeithasol.

8. Gwella'r gwaith o ddarparu gwasanaethau

8.1. Gan adeiladu ar y Strategaeth ar gyfer Pobl Hŷn yng Nghymru a'r Fframwaith Gwasanaeth Cenedlaethol ar gyfer Pobl Hŷn, mae Llywodraeth y Cynulliad, ynghyd â'i phartneriaid, yn datblygu Fframwaith Gwasanaethau i Bobl Hŷn. Dyma'r gyfres gyntaf o fframweithiau gwasanaeth cliriach ar gyfer gwasanaethau cymdeithasol. Caiff y Fframwaith Gwasanaethau Cymunedol ar gyfer Pobl Hŷn ei gwblhau yn 2010 a bydd yn rhoi cyd-destun er mwyn i wasanaethau lleol allu cael eu cynllunio a'u gweithredu i adlewyrchu angen lleol. Bydd yn cyfrannu at y broses o gyflawni gwasanaethau modern, hygyrch ac ymatebol.

8.2. Diben y Fframwaith Gwasanaethau ar gyfer Pobl Hŷn yw:

- **hyrwyddo annibyniaeth** pobl hŷn;
- **gwella canlyniadau** i bobl hŷn;
- **atgyfnerthu gwasanaethau cymunedol sy'n bodoli eisoes ac adeiladu arnynt** i roi cymorth priodol i bobl yn eu cartrefi a'r gymuned ac i ddarparu **model gofal cynhwysfawr ac ymatebol;**
- darparu'r gwasanaeth mwyaf priodol yn y lleoliad mwyaf priodol drwy'r bobl fwyaf priodol;
- sicrhau bod gwasanaethau yn **ymateb i anghenion sy'n newid**;
- **osgoi derbyn pobl i'r ysbyty yn ddiangen** a sicrhau bod **gofal preswyl** yn parhau i fod yn ddewis cadarnhaol a phriodol;
- sicrhau bod **sefydliadau'n gweithio mewn partneriaeth wirioneddol**: er mwyn llunio barn a rennir ynghylch pa fath o wasanaethau a chymorth ddylai fod ar gael yn y gymuned a'u darparu'n ddi-dor.

8.3. Ynghyd â'r broses o ddarparu'r Fframwaith Gwasanaethau i Bobl Hŷn, byddwn hefyd yn adolygu sut mae'r cynllun gofal cartref am ddim am chwe wythnos yn cyfrannu at ail-alluogi, gan leihau nifer yr achosion o dderbyn pobl i'r ysbyty yn

amhriodol a nifer yr achosion o Oedi wrth Drosglwyddo Gofal. Gan adeiladu ar y cynllun gofal cartref am ddim am chwe wythnos a gyflwynwyd gan Lywodraeth y Cynulliad yn 2001 a'r Grant Annibyniaeth a Lles yn 2008, byddwn yn ystyried, ledled Cymru gyfan, sut y gellir sicrhau bod cymorth drwy'r cynllun gofal cartref am ddim am chwe wythnos ar gael yn fwy cyson ac effeithiol o ran ail-alluogi a gwasanaethau gofal canolraddol eraill. Bydd hyn yn cynnwys ystyried a ddylid defnyddio pwerau o dan Ddeddf Gofal Cymunedol (Rhyddhau Gohiriedig ac ati) 2003. Byddwn yn sefydlu Grŵp Gorchwyl amlasiantaethol i ystyried y materion hyn ac i gyflwyno adroddiadau i Lywodraeth y Cynulliad yn ystod 2010-11.

8.4. Pwysleisiodd *Bywydau Bodlon* fod trefniadau da o ran rheoli gofal ac asesu yn cefnogi gofal sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn a'r nod o helpu unigolyn i reoli ei fywyd. Rhaid canolbwyntio ar yr hyn y gellid galluogi unigolyn i'w gyflawni o ystyried y math cywir o gymorth. Gan adeiladu ar brofiad y Fframwaith Asesu Unedig byddwn yn gweithio gyda phartneriaid i ddatblygu fframwaith asesu cyffredin fel ei fod yn adlewyrchu'n briodol egwyddorion gofal sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn, yn gymesur, yn gweithio'n effeithiol ac yn arwain at ganlyniadau da i ddefnyddwyr gwasanaethau.

8.5. Mae rhoi gwybodaeth dda a sicrhau bod pobl yn ymwybodol o'r wybodaeth ddiweddaraf yn elfen graidd o wasanaethau cymdeithasol effeithiol. Nododd Adroddiad AGGCC/SAC (Mehefin 2009) ar Adolygiadau ar y Cyd Gwasanaethau Cymdeithasol yng Nghymru dros y degawd diwethaf fod gan y cynghorau gorau y trefniadau canlynol ar waith:

- strategaeth gwybodaeth i gynllunio, monitro ac adnewyddu gwybodaeth;
- dulliau o sicrhau bod y wybodaeth gywir yn y lle cywir i gyrraedd y bobl gywir;
- amrywiaeth o wybodaeth ysgrifenedig wedi'i hanelu at grwpiau penodol o bobl sy'n rhoi canllawiau syml a chlir ar hawliau, amrywiaeth o wasanaethau a phrosesau ar gyfer cael cymorth;
- mynd i'r afael â materion yn ymwneud ag amrywiaeth a dewis o ieithoedd;
- defnyddio cyfryngau eraill o rannu gwybodaeth fel gwefannau, fideos, cartwnau, y cyfryngau lleol;
- cynnwys y cyhoedd a defnyddwyr gwasanaethau wrth gynllunio gwybodaeth ac o ran ei chynnwys.

8.6. Byddem yn annog Awdurdodau Lleol i ddatblygu ymhellach eu strategaethau gwybodaeth eu hunain ar gyfer gwasanaethau cymdeithasol gan ddefnyddio arfer gorau o bob cwr o Gymru ar y cyd â'r Asiantaeth Gwella Gwasanaethau Cymdeithasol. Mae'r sector gwirfoddol yng Nghymru hefyd yn darparu ystod eang o wybodaeth a chyngor o safon uchel i bobl sy'n defnyddio gwasanaethau gofal cymdeithasol ac mae angen meithrin a datblygu hyn.

8.7. Gall sicrhau bod gwybodaeth a chyngor da ar gael fod yn arbennig o bwysig mewn perthynas â thalu am ofal. Datgelodd ein hymgynghoriad Talu am Ofal yn gynharach eleni gryn dipyn o gamddealltwriaeth a dryswch ynghylch cymhlethdodau'r system codi tâl bresennol ymhlith y cyhoedd. Bydd ein Mesur

Cynulliad sydd ar droed (gweler paragraff 7.4) yn mynd i'r afael â'r broblem mewn perthynas â gwasanaethau dibreswyl ond yn fwy cyffredinol byddwn yn ystyried ymhellach sut y gellid gwella argaeledd gwybodaeth am ofal ac ansawdd y wybodaeth honno a byddwn yn archwilio'r systemau sydd ar gael, er enghraifft mewn gwledydd eraill fel UDA ac Awstralia.

9. Gofal sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn

9.1. Yn y dyfodol, bydd angen i wasanaethau cymdeithasol gael eu llywio'n fwy gan ddefnyddwyr gwasanaethau a'u hanghenion. Bydd hyn yn gofyn am newidiadau fel bod gan y dinesydd fwy o lais o ran y modd y caiff gwasanaeth ei ddarparu. Yng Nghymru, nid ydym wedi mabwysiadu dull y gyllideb unigol a gyflwynir yn Lloegr ar hyn o bryd, ond parhawn yn gwbl ymrwymedig i sicrhau bod dulliau o reoli gofal ac asesu yn cefnogi gofal sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn ac yn cyfrannu at ein prif nod o helpu pobl i reoli eu bywydau.

9.2. Rhaid cynnwys defnyddwyr gwasanaethau yn effeithiol yn y gwaith o ddatblygu ein strategaethau a'n polisïau cenedlaethol ac o ran datblygu a darparu gwasanaethau lleol. Rhaid adlewyrchu barn pob defnyddiwr gwasanaeth hefyd yn y pecyn unigol o wasanaethau a fydd ar gael i'w gefnogi.

9.3. Mae ein cynllun Taliadau Uniongyrchol eisoes yn galluogi awdurdodau lleol i gynnig taliadau arian parod i unigolyn fel y gall brynu ei wasanaethau/cymorth gofal cymdeithasol ei hun (ac eithrio gofal preswyl) i ddiwallu ei anghenion gofal asesedig mewn ffordd sy'n bodloni ei amgylchiadau unigol orau. Byddwn yn parhau i asesu'r dystiolaeth o'r cynlluniau peilot cyllidebau personol/unigol yn Lloegr a'r trefniadau manylach ar gyfer eu gweithredu wrth iddynt gael eu datblygu a'u rhoi ar waith. Byddwn yn gweithio gyda'n partneriaid i ddatblygu dulliau unigryw o ran polisïau gofal sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn i ddiwallu anghenion defnyddwyr gwasanaethau yng Nghymru.

10. Diogelu oedolion

10.1. Mae darparu gwasanaethau sy'n ddiogel ac, yn fwy cyffredinol, yn mynd i'r afael â phob math o achosion o gam-drin oedolion agored i niwed a'u dileu yn fater i bob dinesydd a sefydliad waeth ymhle y byddant yn digwydd na phryd. Nid oes lle i fod yn hunanfodlon a bydd Llywodraeth Cynulliad Cymru yn parhau i roi blaenoriaeth uchel i ddiogelu oedolion agored i niwed. Yn ogystal, caiff ein rhaglen Urddas mewn Gofal ei chyflwyno gyda buddsoddiad ychwanegol i hyrwyddo ymwybyddiaeth a hyfforddiant sgiliau i sicrhau y caiff gofal cymdeithasol ei gyflawni ag urddas a pharch i ddefnyddwyr gofal.

10.2. Yn ystod y misoedd nesaf, daw nifer o feysydd gwaith ynghyd i'n helpu i sicrhau effeithiolrwydd priodolrwydd a chadernid parhaus fframwaith diogelu oedolion agored i niwed Cymru. Mae'r gwaith hwn yn cynnwys:

- adroddiad yr adolygiad annibynnol o'n canllawiau “Mewn Dwylo Diogel”;

- canfyddiadau'r adolygiad thematig o drefniadau diogelu oedolion lleol a gaiff ei gynnal gan Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru;
- canfyddiadau adolygiad Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru o drefniadau diogelu oedolion agored i niwed yn y GIG yng Nghymru.

10.3. Caiff yr holl wybodaeth hon ei dwyn ynghyd i ddechrau a'i hystyried gan ein Bwrdd Prosiect Diogelu Oedolion a fydd, erbyn haf 2010, yn rhoi cyngor ac argymhellion i Weinidogion Cymru ar faterion y mae angen mynd i'r afael â hwy yn cynnwys yr angen am ddeddfwriaeth sylfaenol yn y maes hwn. Er bod y trefniadau ar gyfer diogelu oedolion yn y dyfodol yn cael eu hadolygu a'u harchwilio, mae'n hanfodol bod pob corff statudol yn parhau i roi blaenoriaeth uchel i drefniadau diogelwch oedolion i sicrhau eu bod yn parhau'n effeithiol wrth ddiogelu pobl agored i niwed rhag cael eu cam-drin.

11. Heriau allweddol ar gyfer gwasanaethau cymdeithasol yng Nghymru

11.1. Ymhlith y prif heriau a chyfleoedd a wynebwn wrth i ni barhau i anelu at ragoriaeth a pharhau i wella gwasanaethau cymdeithasol yng Nghymru mae'r canlynol:

- Gwnaed cynnydd yn ystod y deng mlynedd diwethaf ond **rhaid cynnal gwelliannau**.
- **Mae arferion annerbyniol yn parhau i fodoli mewn gormod o lefydd ac mae gormod o amrywiadau o ran perfformiad**. Ceir amrywiadau eang o ran y gwasanaethau a ddarperir i gefnogi pobl hŷn i aros yn eu cartrefi, mewn perthynas ag asesu plant agored i niwed ac mewn perthynas â diogelu.
- **Bod yn eglur ynghylch cyfrifoldeb lleol am wella gwasanaethau**. Mae ein fframwaith cyffredin newydd ar gyfer arolygu, adolygu a gwerthuso gwasanaethau cymdeithasol awdurdodau lleol, yn seiliedig ar y cysyniad craidd bod yn rhaid i sefydliadau a darparwyr gwasanaethau fod yn gyfrifol am ansawdd eu gwasanaethau ac am eu gwella a noda mai awdurdodau lleol sy'n gyfrifol am gyflwyno adroddiadau ar berfformiad a chynlluniau ar gyfer gwella.
- Ceir tystiolaeth dda fod y gyfundrefn reoleiddio yng Nghymru a gyflwynwyd o ganlyniad i Ddeddf Safonau Gofal 2000 wedi helpu i wella safonau ac ansawdd gofal cymdeithasol yng Nghymru. Rhaid i ni adeiladu ar y cynnydd hwnnw a byddwn yn **cynnal adolygiad strategol yn 2010** i sicrhau bod y fframwaith ar gyfer rheoleiddio a safonau gofynnol cenedlaethol yng Nghymru yn cael ei addasu i ddiwallu anghenion defnyddwyr gwasanaethau i ddod.
- **Bydd ymestyn ac atgyfnerthu prosesau cydweithio** gydag amrywiaeth o randdeiliaid ond yn arbennig gyda gwasanaethau iechyd yn hanfodol i wella effeithlonrwydd a dileu rhwystrau i wasanaethau di-dor i unigolion sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn. Mae gan bartneriaethau rhanbarthol a

thraws-sectoraidd gwell a Byrddau Gwasanaethau Lleol ran bwysig i'w chwarae o ran dylanwadu ar newidiadau a'u rhoi ar waith.

- **Cydnabyddir bod angen gofal sy'n canolbwyntio fwy ar yr unigolyn** sy'n cefnogi annibyniaeth. Caiff Awdurdodau Lleol eu cefnogi i ddatblygu modelau gofal newydd drwy'r Fframwaith Gwasanaethau Cymunedol i Bobl Hŷn.
- **Mae arweinyddiaeth broffesiynol glir** yn gwneud gwahaniaeth. Mae'r Canllawiau ar rôl y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol yn mynd i'r afael â'r cymwyseddau allweddol a'u goblygiadau o ran cydberthnasau gwaith yn y cyngor. Rhoddwyd proses ar waith i adolygu trefniadau lleol o ran y canllawiau.
- **Gall croesawu economi gymysg** ar gyfer gofal cymdeithasol wneud gwahaniaeth gwirioneddol. Rydym yn ymrwymedig i natur ganolog llywodraeth leol o ran cynllunio, dylunio a darparu gwasanaethau cymdeithasol, ond rydym yn glir bod y sector annibynnol yn aelodau pwysig o'r teulu gofal cymdeithasol.
- **Mae datblygu a gwerthfawrogi'r gweithlu** yn rhan allweddol o gyflawni ein nodau a'n canlyniadau strategol a gweithredol. Bydd ein tasglu yn chwarae rhan bwysig o ran rhoi cyngor ar sut y dylid gwneud rhagor o gynnydd.
- **Bydd cynnal a gwella gwasanaethau** mewn hinsawdd ariannol anodd o ran y sector cyhoeddus yn creu heriau a chyfleoedd. Rhaid i ni sicrhau ein bod yn canolbwyntio, ym mhob pob un o'n gwasanaethau cyhoeddus, ar fanteisio i'r eithaf ar yr adnoddau sydd gennym eisoes.

12. Comisiwn ar ddyfodol gwasanaethau cymdeithasol yng Nghymru

12.1. Mae Llywodraeth y Cynulliad wedi cyhoeddi ei bwriad i sefydlu Comisiwn i edrych ar sut y mae gwasanaethau cymdeithasol yn ateb heriau'r degawd nesaf. Bydd hyn yn ystyried sut y gallwn wneud y canlynol, ymhlith pethau eraill:

- sicrhau gweledigaeth ar gyfer darparu gwasanaethau;
- cefnogi'r broses o ddatblygu arfer proffesiynol ymhellach;
- adeiladu gwasanaethau cymdeithasol cynhwysol yn seiliedig ar gyfraniad pob partner sy'n gweithio ym maes gwasanaethau cymdeithasol;
- sicrhau newid sylweddol o ran cydweithredu;
- sicrhau bod gwasanaethau cymdeithasol integredig yn cael eu darparu a all ddiwallu anghenion plant, pobl ifanc ac oedolion a phobl hŷn yn y ffordd fwyaf effeithiol.

12.2. Rydym yn pennu'r fframwaith y bydd y Comisiwn yn gweithio yn unol ag ef ac rydym yn datblygu ei gylch gorchwyl a'i gyfansoddiad. Disgwylir i'r Comisiwn gyflwyno adroddiad i'r Comisiwn erbyn hydref 2010.

12.3. Mae'r ddadl a nodir yn y Papur Gwyrdd hwn am drefniadau Talu am Ofal yn y dyfodol yn bwysig ac yn bellgyrhaeddol. Dylid ei hystyried yng nghyd-destun yr egwyddorion a'r nodau a nodir yn y bennod hon i weddnewid gwasanaethau cymdeithasol yng Nghymru. Felly byddwn yn gofyn i'r Comisiwn ystyried canfyddiadau'r ymgynghoriad ac ystyried hyn wrth lunio ei argymhellion i Lywodraeth y Cynulliad am gyfeiriad gwasanaethau cymdeithasol yng Nghymru yn y dyfodol.

13. Casgliad

13.1. Mae Llywodraeth y Cynulliad yn benderfynol o sicrhau bod cyfiawnder cymdeithasol wrth wraidd ei diben. Mae gwasanaethau cymdeithasol o safon uchel, a gaiff eu harwain a'u rheoli'n gadarn yn sylfaenol bwysig i'r nod hwnnw. Mae hwn yn faes cymhleth a chyhoeddus iawn ac mae ei ddyfodol yn dibynnu ar ymrwymiad proffesiynol ac ymdeimlad o arweinyddiaeth o bob lefel o'r sector gofal cymdeithasol. Rhydd yr agenda ar gyfer newid a gweddnewid a nodir yma fframwaith a fydd, yn ein barn ni, yn arwain at yr hyn rydym oll am ei weld - gwella bywydau'r rhai sy'n dibynnu ar wasanaethau cymdeithasol yng Nghymru.

A ydych yn cytuno â'n gweledigaeth ar gyfer gwasanaethau cymdeithasol yng Nghymru?
A ddylid ei chryfhau neu ei diwygio mewn unrhyw ffordd?
A ydym wedi nodi'r holl faterion allweddol?
A oes unrhyw faterion y dylem eu hychwanegu, neu roi mwy o bwyslais arnynt?

Datrysiadau yng Nghymru i heriau yng Nghymru
Beth yw eich barn ar y dull o godi tâl am wasanaethau gofal cymdeithasol dibreswyl y mae Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi'i fabwysiadu? Sut mae hyn yn cymharu â'r cynigion a wnaed gan y Prif Weinidog i Loegr?

Gwelliannau o ran darparu gwasanaethau
A oes gennych unrhyw sylwadau ar yr hyn a gynigir?

Heriau allweddol ar gyfer gwasanaethau cymdeithasol yng Nghymru
A ydym wedi nodi'r heriau cywir?

Y Comisiwn ar wasanaethau cymdeithasol
Pa faterion yr hoffech i'r Comisiwn fynd i'r afael â hwy?

Pennod 3

Model Newydd ar gyfer Ariannu Gofal

1. Opsiynau ar gyfer diwygio'r system ariannu

1.1 Rydym am i'n system ddiwygiedig ar gyfer talu am ofal:

- fod yn gyffredinol (h.y. mae'n cwmpasu pawb);
- bod yn fforddiadwy, yn gynaliadwy ac yn deg (cydbwyso blaenoriaethau pobl â lefelau gwahanol o gyfoeth, oedrannau gwahanol a lefelau gwahanol o angen);
- bod yn glir, fel bod pobl yn deall beth sy'n rhaid iddynt ei wneud i fod yn rhan o'r system, pa gymorth y byddant yn ei gael os bydd angen gofal arnynt, a sut i gael gafael ar y cymorth hwnnw;
- helpu pobl i fyw'n annibynnol, rheoli eu bywydau eu hunain a gwneud eu dewisiadau eu hunain (yn unol â'u gallu), fel eu bod yn cael gofal o safon uchel pan fydd ei angen arnynt.

1.2. Mae gan lywodraeth ganolog a llywodraeth leol ran bwysig i'w chwarae o ran sicrhau bod yr arian a wariwn ar ofal a chymorth yn cael ei ddefnyddio yn y ffordd fwyaf effeithiol, gan fod newidiadau demograffig a disgwyliadau cynyddol pobl o wasanaethau gofal yn rhoi mwy o bwysau ar y system gyfredol. Felly, er mwyn i ni ddiwallu anghenion a bodloni disgwyliadau cenedlaethau'r dyfodol, mae angen diwygio'r system gofal a chymorth.

1.3. Mae sawl ffordd o gyflawni hyn. Ymchwiliwyd i'r rhain gan economegwyr ar ran Llywodraeth y DU ac fe'u harchwiliwyd yng nghyd-destun egwyddorion cyffredinol gan Grŵp Cynghori Rhanddeiliaid Cymru, a gyflwynodd ei argymhellion a'i gyngor i Lywodraeth Cynulliad Cymru ym mis Gorffennaf 2009[1].

1.4. Ceir amrywiaeth o opsiynau: o'r rheini sy'n rhoi'r cyfrifoldeb am wneud trefniadau ariannol ar gyfer talu am ofal ar yr unigolyn yn unig - fel y byddai'n rhaid iddo dalu mwy am ei ofal ei hun yn breifat - i opsiynau sy'n gweld rôl ganolog i'r wladwriaeth, fel opsiynau sy'n seiliedig ar fodelau fel trethiant cyffredinol, lle y bo'n ofynnol i bawb a all fforddio gwneud hynny gofrestru a rhennir costau ar draws y gymdeithas. Rywle yn y canol rhwng y ddau hyn mae opsiynau partneriaeth lle y rhennir costau rhwng unigolion a'r wladwriaeth, a dulliau sy'n seiliedig ar yswiriant y gellid eu cynllunio i gwmpasu rhywfaint o'r boblogaeth neu bob rhan ohoni.

1.5. Yn ei Phapur Gwyrdd "Shaping the Future of Care Together", mae Llywodraeth y DU wedi argymell y dylai dull o weithio mewn partneriaeth fod yn sail i unrhyw opsiwn a ddewisir (yn Lloegr). Byddai hyn yn golygu rhannu costau rhwng yr unigolyn a'r wladwriaeth. Byddai pawb sydd angen gofal yn cael cyfran benodol o'i gost gan y wladwriaeth, gan dalu gweddill y gost eu hunain (drwy ddefnyddio eu

[1]Talu am Ofal yng Nghymru - Adroddiad Grŵp Cynghori Rhanddeiliaid, Mehefin 2009. www.payingforcareinwales.net

hincwm a'u hasedau). Byddai gan bobl yr opsiwn o dalu am weddill y gost mewn dwy ffordd arall hefyd:

- drwy drefnu yswiriant, a fyddai'n rhoi diogelwch i bobl rhag y risg o gael costau gofal a chymorth uchel; neu
- drwy gynllun "cynhwysfawr" newydd, lle y byddai'n ofynnol i bawb dros oedran ymddeol a allai fforddio gwneud gyfrannu gan gael gofal a chymorth am ddim yn gyfnewid am wneud hynny.

1.6. Mae Llywodraeth y DU yn rhagweld y byddai amrywiaeth o ffyrdd gwahanol y gallai pobl dalu eu cyfraniadau yn yr opsiynau Yswiriant a Chynhwysfawr. Gan y byddai unrhyw un o'r modelau hyn yn golygu diwygio mawr, caent eu cyflwyno yn raddol dros nifer o flynyddoedd.

1.7. Mae Llywodraeth y DU wedi gwrthod cadw'r system gyfredol (sy'n nodi bod pobl uwchben trothwy penodol, a all fforddio talu amdanynt eu hunain, yn gorfod talu am eu gofal eu hunain). Mae hefyd wedi gwrthod dau opsiwn posibl arall: ‘Talu amdanoch eich hun' lle byddai pawb yn gyfrifol am dalu am eu gofal a'u cymorth eu hunain pan fydd eu hangen arnynt; ac 'Ariannu drwy Dreth', lle byddai trethiant cyffredinol yn talu am yr holl gostau gofal.

1.8. Yn y paragraffau canlynol, byddwn yn esbonio'r holl opsiynau hyn ymhellach ac yn gofyn i chi am eich barn amdanynt. Rydym am glywed gan bobl ledled Cymru am ba fodel fyddai'n gweithio orau, yn eu barn hwy. Er mai Llywodraeth Cynulliad Cymru sy'n gyfrifol am y system gofal cymdeithasol yng Nghymru, Llywodraeth San Steffan sy'n bennaf gyfrifol am newid y system ar gyfer talu am ofal, ac mae'r fframwaith cyfreithiol presennol yn cwmpasu Lloegr yn ogystal â Chymru. Felly, bydd yn bwysig i ni allu mynegi dewisiadau clir o Gymru ynghylch pa fath o system newydd yr hoffem ei chael, er mwyn i ni allu sicrhau consensws ar draws cymdeithas ar y dewis opsiwn.

1.9. Waeth pa ddull bynnag y penderfynwn arno, bydd awdurdodau lleol yn parhau i chwarae rhan ganolog wrth ddarparu gwasanaethau gofal a chymorth. Rydym wedi ystyried hefyd y cydbwysedd rhwng caniatáu hyblygrwydd i awdurdodau lleol ymateb i amodau lleol, a sicrhau cysondeb ledled y wlad, yn y system gofal a chymorth newydd. Credwn y dylem symud ymlaen tuag at fwy o gysondeb cenedlaethol o ran ariannu gofal a chymorth pan gânt eu darparu gan y wladwriaeth. Credwn y bydd hyn yn gwneud y system yn decach i bawb. Fodd bynnag, rhaid i lywodraeth leol, gan weithio gydag eraill, fod yn gyfrifol am y broses o gynllunio a darparu gwasanaethau cymdeithasol yng Nghymru o hyd.

2. Pam mae angen proses ddiwygio radical arnom

2.1. Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru a Llywodraeth y DU o'r farn bod y system gyfredol yn annheg: mae pobl yn talu symiau gwahanol tuag at eu gofal a'u cymorth, ac yn cael lefelau ariannu gwahanol gan y wladwriaeth mewn ardaloedd gwahanol yng Nghymru, fel sy'n digwydd yn Lloegr. Er enghraifft, mae'n bosibl y bydd yn rhaid i bobl sy'n wynebu costau gofal preswyl uchel iawn ddefnyddio eu cynilion a gwerth eu cartrefi, hyd nes bydd ganddynt werth llai na £22,000 o asedau, cyn iddynt gael

unrhyw help gan y wladwriaeth. Gan adeiladu ar y camau gweithredu rydym eisoes yn eu cymryd i wneud y system ar gyfer talu am ofal dibreswyl yn decach, mae angen i ni ddiwygio'r system gyfredol mewn modd radical.

2.2. Dywedodd ein Grŵp Cynghori Rhanddeiliaid, "Argymhellwn y dylai unrhyw system ddiwygiedig gael ei hariannu drwy daliadau gan bawb mewn cymdeithas, yn ôl eu gallu i dalu, yn bennaf yn ystod eu bywyd gwaith. Credwn fod angen i'r fframwaith ar gyfer y system hon weithredu ar lefel Prydain gyfan neu ledled y DU. Anogwn Lywodraeth y Cynulliad a Llywodraeth y DU (ynghyd â gweinyddiaethau perthnasol eraill) i feddwl yn radical am ddiwygio i'r perwyl hwn, gan fanteisio ar arbenigedd a chyngor amryw helaeth o randdeiliaid[2]."

3. Costau i bobl sy'n anabl yn gynnar yn eu bywydau

3.1. Dengys yr ystadegau fod pobl sy'n anabl pan gânt eu geni, neu sy'n dod yn anabl yn ystod eu bywyd gwaith, yn debygol o fod ar incwm is ac felly byddant yn ei chael hi'n anodd talu costau eu gofal a'u cymorth. Ar hyn o bryd, bydd y wladwriaeth yn talu am ofal a chymorth y rhan fwyaf o bobl sydd yn y sefyllfa hon ac ar incymau isel. Mae Llywodraeth y DU yn rhagweld y byddai hyn yn parhau; ac mae'r opsiynau ariannu a gynigiwyd yn bwriadu cefnogi pob oedolyn. **Byddem yn croesawu eich safbwyntiau ar ai hwn yw'r dull cywir o weithredu yng Nghymru, yn eich barn chi.**

4. Costau i bobl sydd angen gofal yn ddiweddarach yn eu bywydau

4.1. Gall pobl hŷn sydd angen gofal wynebu costau uchel iawn, ac nid oes gan unigolion unrhyw ffordd o wybod pa gostau y byddant yn eu hwynebu, yn bersonol, yn ystod eu bywydau. Gall dwy o bob tair merch, ac un o bob dau ddyn, ddisgwyl bod ag angen gofal uchel (term a ddefnyddir i olygu y byddant yn cael anawsterau gyda thri neu fwy o weithgareddau bywyd bob dydd, fel gwisgo neu symud o amgylch) ar ryw adeg yn ystod eu hymddeoliad.

4.2. Dengys ffigurau o'r Uned Ymchwil Gwasanaethau Cymdeithasol Personol sy'n gweithio i'r Adran Iechyd y bydd angen gofal sy'n costio llai na £1,000 ar 20% o bobl yn ystod eu hymddeoliad, ond y bydd angen gofal sy'n costio mwy na £50,000 ar 20% arall. Ar hyn o bryd, bydd angen gofal sy'n costio mwy na £30,000 ar unigolyn cyffredin 65 mlwydd oed yn Lloegr yn ystod ei ymddeoliad[3]. Ni fydd y ffigurau i Gymru yn wahanol iawn.

[2] 'Talu am ofal yng Nghymru: Adroddiad Grŵp Cynghori Rhanddeiliaid Cymru' (Mehefin 2009), Argymhelliad 18.

[3] Daw'r ffigurau a geir yn yr adran hon o Bapur Trafod yr Uned Ymchwil Gwasanaethau Cymdeithasol Personol, 'Analysing the costs and benefits of social care funding in England: technical report' (Forder a Fernandez, Gorffennaf 2009).

Amcangyfrif o gost ddisgwyliedig oes gofal unigolyn 65 mlwydd oed, ar gyfartaledd	
Merched	£40,400
Dynion	£22,300
Pob	£31,700

4.3. Bydd rhai pobl yn wynebu costau uchel iawn. Gall pobl sydd angen llawer o ofal a chymorth gartref wynebu costau sylweddol, ond yn benodol, y bobl hynny sydd angen gofal preswyl fydd yn wynebu'r costau uchaf fel arfer. Dwy flynedd yw'r cyfnod y bydd unigolyn yn aros mewn cartref gofal, ar gyfartaledd, a gall hyn gostio mwy na £25,000 ar gyfer cost y gofal yn unig; gall llety gostio gymaint â hyn eto. Ond gallai fod angen sawl blwyddyn o ofal preswyl ar rywun â chyflwr hirdymor fel clefyd Alzheimer ac felly gallai wynebu costau uwch o lawer na hyn. Gallai dim ond pedair blynedd o ofal a llety mewn cartref gofal gostio mwy na £100,000 ac mae angen gofal preswyl ar rai pobl am fwy na deng mlynedd. Ar hyn o bryd, os bydd rhywun mewn cartref gofal ac nad oes unrhyw un yn byw yn eu tŷ, disgwylir iddynt ddefnyddio eu cynilion a gwerth eu tŷ i dalu am ofal a llety, hyd nes y byddant wedi defnyddio bron bob ceiniog.

4.4. Rywbryd yn y dyfodol, mae'n bosibl y bydd technoleg feddygol yn ei gwneud yn bosibl nodi a fydd rhywun mewn risg o ddatblygu cyflwr sy'n debygol o arwain at gostau uchel iawn. Ond ar hyn o bryd, er bod ffactorau risg a all ei gwneud yn fwy tebygol y bydd angen rhywfaint o ofal ar rywun yn ddiweddarach yn eu bywydau, nid oes unrhyw ffordd o wybod a fydd angen gofal ar unigolyn penodol o gwbl, na faint y gallai gostio.

5. Cynigion gan Lywodraeth y DU

5.1. Mae'r Papur Gwyrdd “Shaping the Future of Care Together” wedi dweud bod **y Llywodraeth am ddefnyddio'r arian sydd yn y system ofal i sicrhau y bydd pawb sy'n gymwys i gael gofal a chymorth yn Lloegr, yn cael rhywfaint o help i dalu am eu gofal. Byddem yn croesawu eich safbwyntiau ar b'un a ddylai Cymru wneud yr un peth hefyd**.

5.2. Wrth ystyried y cwestiwn hwn, mae'n bosibl y byddwch am ystyried ffactorau fel y canlynol:

- A yw'n well rhoi rhywfaint o arian i bawb sydd angen gofal, waeth beth fo'u modd neu'u cyfoeth (yn cynnwys gwerth unrhyw eiddo y gallent fod yn berchen arno)? Neu fel arall, a ddylid dyrannu arian y wladwriaeth ar sail y ffaith y dylai pobl nad oes ganddynt lawer o fodd gael mwy o'r help sydd ar gael gan y wladwriaeth (a fyddai'n golygu cynnal profion modd)?

- Os rhoddir rhywfaint o gymorth ariannol i bawb, a allai hyn gael effaith ar lefelau'r gwasanaethau gofal y gellid eu fforddio - ac, os felly, beth yw'r ffordd orau o fynd i'r afael â hyn?

5.3. Fodd bynnag, gwyddom na fydd yr arian sydd eisoes yn y system yn ddigon i gynnal system gynaliadwy. Ymhen 20 mlynedd, disgwyliwn y bydd nifer yr oedolion sydd angen gofal a chymorth yn fwy o lawer na'r nifer ar hyn o bryd, a nifer gymharol is o bobl o oedran gweithio i helpu i dalu am y gofal a'r cymorth hwnnw. Mae terfyn ar faint o arian y gallwn ei neilltuo drwy wneud y defnydd gorau posibl o'n hadnoddau presennol; ac ni fyddwn yn gallu talu am y gofal sydd ei angen drwy ail-flaenoriaethu'r arian sydd gennym eisoes yn unig. Fel cymdeithas, mae'n rhaid i ni wario mwy ar ofal a chymorth er mwyn i ni gynnal system gofal a chymorth sy'n gwella ansawdd bywyd pobl hŷn a phobl anabl ac yn rhoi urddas a thawelwch meddwl iddynt ynglŷn â'u costau yn y dyfodol.

5.4. Mae pawb eisoes yn cyfrannu at ddarparu gofal drwy'r trethi y byddant yn eu talu. Yn ddiweddarach yn y bennod hon, byddwn yn ystyried nifer o ffyrdd y gellid cyflwyno arian **newydd** ym maes gofal a chymorth, yn cynnwys modelau lle bydd pobl yn diogelu eu hunain, a modelau lle bydd pawb mewn cymdeithas yn rhannu cost gofal pawb. Er mwyn cael cynllun sy'n rhannu'r holl gostau ar draws cymdeithas gyfan, bydd angen iddi fod yn system y mae'n **ofynnol** i bobl ymrwymo iddi.

6. Ffynonellau ariannu ar gyfer gofal a chymorth

6.1. Y ddwy ffynhonnell fwyaf o arian y llywodraeth ar gyfer gofal a chymorth yw'r system gofal cymdeithasol a budd-daliadau anabledd. Yn 2007/08, gwariodd y wladwriaeth £1.4 biliwn ar ofal cymdeithasol yng Nghymru. Roedd gwariant ar y budd-daliadau anabledd a anelwyd yn benodol at bobl hŷn yng Nghymru tua £0.6 biliwn.

Ariannu'r maes gofal cymdeithasol

6.2. Ar hyn o bryd, dim ond gofal i'r bobl hynny sy'n cyrraedd y lefel benodol o angen a bennwyd gan eu hardal leol, yn ôl Fframwaith Llywodraeth Cynulliad Cymru ar gyfer Systemau Teg ac Unedig i Asesu a Rheoli Gofal y mae'r system gofal cymdeithasol ar sail prawf modd yn ei ariannu. Mae cyfran sylweddol o bobl ag anghenion cymorth, yn arbennig pobl hŷn, y tu allan i'r grŵp cymwys hwn yng Nghymru a Lloegr. Gall y rheini nad ydynt yn cael gofal a ariennir gan y wladwriaeth brynu gofal yn breifat.

6.3. Yn ystod y blynyddoedd diwethaf, mae arian cyhoeddus ar gyfer gofal cymdeithasol wedi canolbwyntio fwyfwy ar y rheini â'r anghenion mwyaf, oherwydd y cynnydd yn nifer y bobl sydd angen gofal a phwysau o ran cost. Yn sgîl hyn, ni chynigiwyd gwasanaethau i bobl llai anghenus. Bydd y pwysau hyn yn cynyddu a, heb ddiwygio, ni fydd nifer gynyddol fawr o bobl sydd angen cymorth yn gymwys i gael unrhyw gymorth gofal cymdeithasol a ariennir gan y wladwriaeth.

Budd-daliadau anabledd

6.4. Lwfans Gweini yw'r prif fudd-dal anabledd i 125,000 o bobl hŷn yng Nghymru. Mae ar gael i unrhyw un sydd angen gofal yn 65 oed neu'n hŷn ac mae'n gweithredu ar y cyd â'r system gofal cymdeithasol i bobl 65 oed neu'n hŷn. Nid yw Lwfans Gweini yn fudd-dal a delir yn lle incwm a gollir: mae ganddo'r un dibenion â gofal cymdeithasol, ar y cyfan, sef cyfrannu at gostau ychwanegol sy'n gysylltiedig ag

anabledd yr unigolion hynny sydd angen cymorth i fyw'n annibynnol. Nid yw'r Lwfans Gweini ar sail prawf modd, felly bydd pobl yn ei gael waeth faint o arian sydd ganddynt. Bydd llawer o bobl hŷn anabl yn cael cymorth o rannau eraill o'r system fudd-daliadau, yn cynnwys drwy'r Lwfans Byw i'r Anabl, yn hytrach na Lwfans Gweini.

6.5. Gwyddom fod y bobl sy'n derbyn budd-daliadau anabledd fel Lwfans Gweini, yn eu gwerthfawrogi'n fawr, a'u bod yn rhoi rheolaeth i bobl dros y ffordd y byddant yn gwario eu harian i ddiwallu eu hanghenion gofal a chymorth. Fodd bynnag, yn ei Phapur Gwyrdd, mae Llywodraeth y DU yn esbonio ei barn bod anghysondebau yn y system gyfredol o ran y dull o weithredu ym meysydd budd-daliadau anabledd a gofal cymdeithasol. Dywed fod hyn o ganlyniad i'r ffaith bod y systemau gofal cymdeithasol a budd-daliadau anabledd wedi datblygu ar wahân i'w gilydd a bod y ddwy gyfran fwyaf hyn o wariant y llywodraeth ar ofal a chymorth yn cael eu dyrannu ar seiliau gwahanol. Cred y gall hyn arwain at ganlyniadau anghyson ac annheg.

6.6. Noda Llywodraeth y DU hefyd fod cael dwy ffrwd ariannu wahanol hefyd yn golygu bod yn rhaid i bobl hŷn wneud cais ar wahân i'r ddwy ffynhonnell o gymorth a bod yn rhan o brosesau asesu anghenion gwahanol, a allai annog pobl i beidio â gwneud cais am gymorth. Daw i'r casgliad y gall hyn olygu na fydd rhai pobl yn cael yr holl gymorth y mae ganddynt i'r hawl iddo.

6.7. Cynigia Llywodraeth y DU y dylai ffynonellau cymorth gael eu symleiddio a'u hintegreiddio er mwyn defnyddio arian y wladwriaeth yn fwy effeithiol. Awgryma, o bosibl, fod llai o angen am rai o'r budd-daliadau anabledd sydd ar gael ar hyn o bryd pe bai'r system gofal cymdeithasol yn gallu diwallu'r rhan fwyaf o anghenion gofal pobl. Awgryma felly y gallai fod achos dros integreiddio rhai budd-daliadau anabledd fel Lwfans Gweini â'r system gofal a chymorth.

6.8. Gallai rhai o'r canlyniadau cadarnhaol sy'n deillio o newid o'r fath gynnwys y canlynol:

- y bobl hynny a fyddai'n elwa fwyaf ohono fyddai'n cael y cymorth cyhoeddus mwyaf, sef pobl sydd wedi datblygu lefelau o angen a phobl â chryn dipyn o angen;
- câi adnoddau eu dyrannu'n deg ac yn gyson;
- gallai'r Llywodraeth fabwysiadu'r model hyblygrwydd a ddarperir ar hyn o bryd drwy'r Lwfans Gweini ac adeiladu arno, gan gadw ei brif fanteision ond mewn system integredig newydd (ymhlith y manteisio hyn mae: hawl gyffredinol nad yw'n dibynnu ar ble mae rhywun yn byw; darparu cyllideb arian parod y gellir ei gwario ar y gwasanaethau a ddymunir; a bydd pobl yn aml yn eu defnyddio i gefnogi anghenion lefel is mewn ffyrdd sy'n eu helpu i barhau'n annibynnol ac yn iach am fwy o amser yn hytrach na datblygu lefelau uchel o angen.)

6.9 **Mae dyfodol Lwfans Gweini yn fater nad yw wedi'i ddatganoli, a Llywodraeth y DU sy'n gyfrifol amdano; ond rydym am glywed eich barn chi ar y posibilrwydd o uno budd-daliadau anabledd fel Lwfans Gweini â'r system ariannu gofal cymdeithasol.** Wrth i chi ystyried y materion hyn, mae'n bosibl y

byddwch am wybod yr ymrwymiadau y mae Llywodraeth y DU wedi'u gwneud ar y mater hwn yn y Papur Gwyrdd, *Shaping the Future of Care Together:*

> "Waeth beth fo canlyniad yr ymgynghoriad, rydym am sicrhau bod pawb sy'n cael unrhyw un o'r budd-daliadau perthnasol ar adeg y diwygio, yn parhau i gael yr un lefel o gymorth a diogelwch o dan system gofal a chymorth newydd a gwell.
>
> Byddai unrhyw newidiadau i'r system gofal a chymorth yn Lloegr sy'n integreiddio rhai budd-daliadau anabledd yn effeithio ar y gweinyddiaethau datganoledig yng Nghymru a'r Alban, a gallai Gogledd Iwerddon hefyd ddewis mabwysiadu'r system gofal a chymorth newydd. Byddwn yn gweithio'n agos gyda'r tair gweinyddiaeth ddatganoledig i lunio barn a rennir ar sut i sicrhau'r canlyniadau gorau posibl i bawb yn y DU." *Shaping the Future of Care Together. tudalen 104*

7. Cyflwyno arian newydd i'r system

7.1. Ynghyd â'r angen i sicrhau bod yr holl arian sydd yn y system ar hyn o bryd yn cael ei ddefnyddio mor effeithiol â phosibl, mae angen i ni hefyd ddod o hyd i ffyrdd newydd o gyflwyno mwy o arian i'r system. Rydym eisoes wedi esbonio, wrth i nifer y bobl sydd angen gofal gynyddu, mae angen i gymdeithas wario mwy ar ofal a chymorth. Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru o'r farn bendant y dylai'r wladwriaeth chwarae rhan yn y gwaith o alluogi pawb i dalu costau eu gofal a chymorth mor deg â phosibl.

7.2. Mae cynigion Llywodraeth y DU yn seiliedig ar yr egwyddor fod yn rhaid i unrhyw system newydd fod yn bartneriaeth rhwng y wladwriaeth ac unigolion. Gall y costau gofal a chymorth y gall pobl eu hwynebu fod mor uchel fel nad yw Llywodraeth y DU o'r farn ei bod yn deg gadael i unrhyw un wynebu'r costau hynny heb rywfaint o gymorth ariannol gan y wladwriaeth. **Yn eich barn chi, beth yw'r ffordd orau o ymdrin â'r bartneriaeth rhwng y wladwriaeth a'r unigolyn i Gymru?**

7.3. Os nad ydym yn derbyn mai dull partneriaeth yw'r sail decaf i system ddiwygiedig, y cwestiwn nesaf y mae angen i ni fel cymdeithas ei ddatrys yw sut y dylem roi hyn ar waith. Y dewis sylfaenol yw p'un a ddylem **ganiatáu i bobl benderfynu** a ydynt am ddiogelu eu hunain rhag costau gofal uchel (i raddau mwy neu lai helaeth), neu p'un a ddylem **ei gwneud yn ofynnol iddynt fod yn rhan o gynllun** a fyddai'n eu diogelu.

7.4. Roedd Grŵp Cynghori Rhanddeiliaid Llywodraeth y Cynulliad yn glir y dylai cyfraniadau fod yn orfodol i bawb sydd â gwaith â thâl, er mwyn sicrhau nad yw pobl yn cael eu temtio i osgoi neu ohirio eu taliadau (paragraff 4.21)[4]. Roedd hefyd o'r farn bod gan y Llywodraeth rôl ganolog i'w chwarae o ran sicrhau bod y cynllun yn cael ei gynnal yn effeithiol:

[4]Talu am Ofal yng Nghymru - Adroddiad Grŵp Cynghori Rhandeiliaid, Mehefin 2009. www.payingforcareinwales.net

> “Waeth pa system bynnag a fabwysiedir yn y broses o ddiwygio'r system talu am ofal, credwn fod gan Lywodraeth Cynulliad Cymru a Llywodraeth y DU ran ganolog i'w chwarae o ran sicrhau bod yr arian a fwriedir ar gyfer y system ofal yn cael ei ddiogelu; bod unigolion yn cyfrannu, neu y cesglir cyfraniadau ganddynt, yn unol â'r cynllun; bod digon o arian ar gael i roi gofal o ansawdd da i'r rheini sydd ei angen; a bod y cynllun yn cael ei redeg yn effeithlon a'i fod o fudd i'r rheini sy'n derbyn gofal” (paragraff 3.11)[5].

7.5. **A gytunwch gyda chasgliadau'r Grŵp Cynghori fod gan y wladwriaeth ran ganolog i'w chwarae, neu a fyddai pobl Cymru am gael mwy o ryddid i wneud eu trefniadau eu hunain i ddiogelu eu hunain rhag costau gofal uchel, yn eich barn chi?** Mae'n bosibl y byddwch am ystyried y mater hwn wrth i chi edrych yn fanylach ar y modelau ariannu canlynol.

8. Ynglŷn â'r opsiynau ariannu gwahanol

8.1. At ddibenion modelu'r opsiynau gwahanol, ac i ddangos sut y gallent weithio yn ymarferol, mae'r economyddion sy'n cynorthwyo'r Adran Iechyd wedi gwneud tybiaethau penodol ynglŷn â lefel yr arian y byddai'r wladwriaeth yn ei chyfrannu; ond mae Llywodraeth y DU wedi egluro nad yw'r tybiaethau hyn yn adlewyrchu penderfyniad ynghylch buddsoddiad llywodraeth ganolog ym maes gofal a chymorth. Bydd y costau a'r opsiynau a esbonnir isod yn newid yn ôl faint o arian y wladwriaeth a gyfrannir i'r system.

8.2. Lluniwyd y modelau hefyd yn unol â'r dybiaeth y bydd pobl yn cael y gofal a'r cymorth sydd eu hangen arnynt i ddiwallu eu hanghenion asesedig. Pe bai pobl am gael mwy na hyn, gallent ddewis talu am ofal ychwanegol. Mae'r modelau yn dangos cost gofal, ond nid ydynt yn cynnwys llety oherwydd byddai disgwyl i bobl dalu am eu bwyd a'u llety eu hunain pe na baent mewn cartref gofal, fel sy'n digwydd ar hyn o bryd.

8.3. Yn y paragraffau canlynol, cyflwynwn y pum model ariannu a gyflwynir ym Mhapur Gwyrdd Llywodraeth y DU "Shaping the Future of Care Together”, gyda rhai o'r prif bwyntiau o blaid ac yn erbyn pob opsiwn. **Croesawn eich safbwyntiau ar y modelau ariannu gwahanol, a byddai'n ddiddorol i ni glywed i ba raddau y maent yn cyd-fynd â'r egwyddorion a argymhellwyd gan Grŵp Cynghori Rhanddeiliaid Cymru (a nodwyd ym Mhennod 1, tudalen 8), ac â'r nodau a nodwyd ym mharagraff 1.1 o'r Bennod hon.**

9. Y pum opsiwn ariannu

OPSIWN 1: “TALU AMDANOCH EICH HUN”

9.1. Mae Llywodraeth y DU wedi modelu'r system hon ar sail y ffaith bod angen i bawb fod yn gyfrifol am dalu am eu gofal a'u cymorth sylfaenol eu hunain, pan fydd eu hangen arnynt. Gallent drefnu yswiriant i gwmpasu rhai o'r costau hyn, neu

[5] Talu am Ofal yng Nghymru - Adroddiad Grŵp Cynghori Rhandeiliaid, Mehefin 2009. www.payingforcareinwales.net

ddefnyddio eu hincwm a'u cynilion. Ni fyddai'r wladwriaeth yn rhoi cymorth ariannol i neb, hyd yn oed pobl sydd â'r incwm isaf a phobl nad oes ganddynt unrhyw gynilion. Ni fyddai llawer o bobl yn gallu fforddio costau eu gofal, a byddai angen iddynt ddibynnu ar ofal gan eu teulu neu eu ffrindiau neu fynd heb y gofal sydd ei angen arnynt.

9.2. Mae Llywodraeth y DU wedi diystyru'r opsiwn hwn gan y byddai'n gadael llawer o bobl heb y gofal a'r cymorth sydd eu hangen arnynt, ac mae'n sylfaenol annheg oherwydd na all pobl ragweld pa ofal a chymorth y bydd arnynt eu hangen. Yn yr un modd, dywedodd Grŵp Cynghori Llywodraeth y Cynulliad:

> "Mae gennym bryderon difrifol am addasrwydd systemau a fyddai'n dibynnu ar unigolion (neu'r rhan fwyaf o unigolion) yn cymryd rôl arweiniol wrth lunio eu trefniadau eu hunain ar gyfer talu am ofal - er enghraifft, drwy gynlluniau yswiriant personol neu flwydd-daliadau. Teimlwn nad yw rhai pobl yn cael y sylw na'r gwasanaethau sydd eu hangen arnynt ac na allai rhai pobl fforddio llunio'r trefniadau angenrheidiol" (Argymhelliad 22)[6].

Rydym felly wedi diystyru "Talu amdanoch eich hun" fel opsiwn hefyd. A gytunwch?

OPSIWN 2: TRETHIANT

9.3. Yn y system hon, byddai pobl yn talu treth drwy gydol eu bywydau, a ddefnyddid i dalu am yr holl bobl sydd angen gofal ar hyn o bryd. Yn ei dro, pan fyddai angen gofal ar y bobl hyn, byddent yn cael eu holl ofal sylfaenol am ddim, yn yr un modd ag y mae'r GIG yn gweithredu ar hyn o bryd (gyda threthiant yn talu costau llawn gofal a chymorth a gwasanaethau yn cael eu darparu i bobl am ddim pan fydd eu hangen arnynt). Byddai'r system hon yn gweithio i bobl o bob oedran. Mantais y system hon yw y byddai'n gyffredinol - byddai'n cwmpasu pawb - ac, yn ôl pob tebyg, hon fyddai'r ffordd symlaf a haws ei deall o ariannu gofal a chymorth.

9.4. Ond anfantais y system hon yw y byddai'n gofyn am gynnydd sylweddol yn y dreth y mae pobl eisoes yn ei thalu. Mae hyn oherwydd y byddai trethiant yn ariannu'r holl ofal a chymorth, yn cynnwys y rhannau y mae pobl yn talu amdanynt eu hunain pan fydd eu hangen arnynt. Yn arbennig, byddai'r opsiwn hwn yn rhoi cryn dipyn o'r baich o dalu am ofal a chymorth ar bobl sy'n gweithio. Byddai'n rhaid i'r grŵp hwn dalu cyfraniadau uchel drwy dreth i dalu am y grŵp mawr iawn o bobl sydd angen gofal a chymorth, y byddai'r rhan fwyaf ohonynt wedi ymddeol.

9.5. O ystyried newidiadau demograffig, byddai'r pwysau hwn ar gyfran sy'n lleihau o bobl o oedran gweithio, gan dybio nad oes cynnydd sylweddol yn yr oedran y bydd y rhan fwyaf o bobl yn ymddeol o waith â thâl. Yn 2007, roedd nifer y bobl dros 65 oed yn fwy na nifer y bobl o dan 18 oed am y tro cyntaf. Oherwydd y bydd cyfran fwy o'r bobl sy'n cael budd o system gofal a chymorth ddiwygiedig yn bobl dros oedran ymddeol, mae Llywodraeth y DU wedi awgrymu ei bod yn decach

[6] Talu am Ofal yng Nghymru - Adroddiad Grŵp Cynghori Rhandeiliaid, Mehefin 2009. www.payingforcareinwales.net

meddwl am ffyrdd mwy penodol o ddenu arian ychwanegol, yn hytrach na rhoi llawer o'r baich o ran y system ar bobl o oedran gweithio.

9.6. Nid yw pawb dros oedran ymddeol yn gefnog. Gwyddom fod llawer o bensiynwyr ar incymau isel a bod angen cymorth arnynt i dalu costau gofal a chymorth. Fodd bynnag, gwyddom hefyd fod pobl dros yr oedran ymddeol yn dal £932 biliwn o asedau tai yn 2004. O gymharu â hyn, mae llawer o bobl o oedran gweithio wedi cael trafferth dod yn rhan o'r farchnad eiddo o ganlyniad i brisiau tai cynyddol, ac yn aml maent yn talu morgeisi uwch.

9.7. Oherwydd hyn, mae Llywodraeth y DU wedi diystyru'r opsiwn hwn, yn arbennig gan ei fod yn rhoi baich trwm ar bobl o oedran gweithio. Cydnabyddwn fod materion cadarn iawn o ran yr economi a thegwch yn sail i'r farn hon ac na fyddai, sut bynnag, yn opsiwn y byddai gan Gymru y pwerau i gyflwyno ar wahân i weddill y DU. Oherwydd hynny, **a gytunwch nad yw talu cost lawn yr holl ofal a chymorth drwy drethiant yn opsiwn dichonadwy ar gyfer y dyfodol?**

OPSIWN 3: PARTNERIAETH

9.8. Mae'r model hwn yn sail i dri dewis opsiwn Llywodraeth y DU ar gyfer system ariannu newydd. Mae'n golygu y câi'r cyfrifoldeb am dalu am ofal ei rannu rhwng y llywodraeth a'r unigolyn y mae angen gofal arno. Mae Llywodraeth y DU yn rhagweld y dylai sicrhau bod pob oedolyn sy'n bodloni'r meini prawf o ran anghenion yn cael help gan y wladwriaeth i dalu am ei anghenion gofal, fod yn un o egwyddorion sylfaenol y bartneriaeth.

Sut y byddai'r system yn gweithio

9.9. Mae Llywodraeth y DU wedi dangos sut y byddai hyn yn gweithio yn ymarferol: Byddai gan bawb, waeth beth fo'u cyfoeth, yr aseswyd bod angen gofal arnynt, yr hawl i gael help y wladwriaeth i dalu am gyfran o'u costau gofal.
Er enghraifft, gallai'r wladwriaeth dalu am chwarter neu draean o gostau gofal pawb. Yn ychwanegol at y swm a dalwyd gan y wladwriaeth, byddai pobl yn cyfrannu at eu costau yn uniongyrchol o'u hincwm a'u hasedau eu hunain, fel y gwnânt yn awr.

9.10. Yn achos pobl llai cefnog, byddai'r wladwriaeth yn talu am fwy o'u gofal - er enghraifft, dwy ran o dair ohono - tra byddai'r bobl lleiaf cefnog yn parhau i gael eu gofal am ddim. Bydd angen gofal sy'n costio £30,000, ar gyfartaledd, ar unigolyn 65 oed yn Lloegr yn ystod ei ymddeoliad, felly byddai angen i rywun a fyddai'n manteisio ar y cynnig sylfaenol, o gael y wladwriaeth yn talu am draean neu chwarter o'i ofal, dalu tua £20,000 neu £22,500. Byddai llawer o bobl yn talu llai o lawer. Byddai rhai pobl yr oedd angen cryn dipyn o ofal a chymorth arnynt yn talu fwy na hyn o lawer, a byddai angen iddynt wario eu cynilion a gwerth eu cartrefi.

9.11. Bydd rhywfaint o gostau gofal rhywun a oedd yn byw mewn cartref gofal a oedd yn berchen ar eu cartref eu hunain yn cael eu talu gan y wladwriaeth. Os nad oedd ganddynt aelod o'r teulu yn byw yn eu cartref, mae'n bosibl y bydd yn rhaid iddynt dalu am weddill eu gofal allan o werth y cartref hwnnw. Ond gallem ystyried cryfhau'r trefniadau presennol (gweler Pennod 1) ar gyfer taliadau gohiriedig fel na

fyddai'n rhaid i unrhyw un werthu eu cartref i dalu am ofal preswyl yn ystod eu hoes pe na baent yn dewis gwneud hynny.

9.12. Byddai pobl sydd â llai o arian i gyfrannu yn cael mwy, felly byddai'r rheini ar yr incymau isaf yn parhau i gael eu holl ofal am ddim. Byddai'r system hon yn gweithio i bobl o bob oedran.

Manteision ac anfanteision

- Mantais y system hon yw mai dim ond costau eu gofal eu hunain y mae'n rhaid i bobl dalu ac, os na fyddant yn datblygu angen gofal, ni fydd yn rhaid iddynt dalu unrhyw beth (ac eithrio'r cyfraniad y gwnaethant eisoes drwy drethiant cyffredinol).
- Mae partneriaethau yn ddefnyddiol iawn i'r nifer fawr o bobl sydd â chostau gofal is, neu'r rheini ar incymau uwch nad ydynt yn cael unrhyw gymorth gan y wladwriaeth o dan y system gyfredol.
- Mae pawb sy'n gymwys i gael gofal a chymorth yr un mor dda eu byd neu'n well eu byd o dan yr opsiwn hwn nag y maent o dan y system gyfredol. Byddai'r rheini sy'n cael cyfraniad tuag at eu gofal neu ofal am ddim gan y wladwriaeth ar hyn o bryd yn parhau i wneud hynny, ond byddai llawer mwy o bobl nad ydynt yn cael cymorth gan y wladwriaeth ar hyn o bryd hefyd yn cael budd o'r gyfran ofynnol a delir gan y wladwriaeth.
- Ond anfantais hyn yw y byddai'n rhaid i bobl sydd â chostau gofal uchel iawn ac yn berchen ar eu cartrefi eu hunain neu sydd â chynilion, dalu cyfraniadau uchel iawn o hyd pe baent, er enghraifft, yn mynd i gartref gofal am gyfnod hir. Mae nifer y bobl sy'n wynebu arosiadau hir mewn cartref gofal yn eithaf bach, ond ni all pobl ragweld eu hanghenion eu hunain yn y dyfodol, a gwyddom y bydd angen gofal sy'n costio mwy na £50,000 ar fwy nag un o bob pump o bobl. Mae pobl ledled Cymru a Lloegr wedi dweud bod y risg yn peri pryder iddynt.

Mae cydberthynas dda rhwng yr egwyddor bartneriaeth a'n nodau ar gyfer y broses ddiwygio hon, fel y nodwyd ym mharagraff 1.1 o'r bennod hon.

- Byddai'r system hon yn gyffredinol: byddai'r wladwriaeth yn cyfrannu at ofal pawb.
- Ar y cyfan, byddai'r system yn decach. Byddai rhywfaint o arian yn dod gan y wladwriaeth - felly byddai pawb sydd angen gofal yn cael budd o'r arian a gyfrennir gan bob trethdalwr. Dim ond yr hyn y gallent ei fforddio y byddai pobl sydd angen gofal yn ei dalu. Fodd bynnag, byddai rhai pobl yn gorfod talu costau gofal uchel iawn o hyd.
- Byddai'r system hon yn fforddiadwy i'r wladwriaeth a'r bobl sydd angen gofal. Gofynnid i bobl gyfrannu yn unol â'u hincwm a'u cyfoeth.
- Mae'r system yn gymharol syml a hawdd ei deall, gan y byddai pawb yn gwybod bod ganddynt hawl i gael rhywfaint o arian ond y byddai angen iddynt baratoi ar gyfer costau eraill. Fodd bynnag, nid yw'n galluogi pobl i wybod ymlaen llaw yn union faint y bydd yn rhaid iddynt ei dalu.

Byddai'r system yn helpu pobl i fyw eu bywydau eu hunain yn y ffordd y maent am wneud hynny, drwy roi cymorth i bobl a sicrhau bod pobl mewn sefyllfa well i ddiwallu eu hanghenion. Gallai'r system hon leihau faint o 'angen heb ei ddiwallu' sydd yn y system yn sylweddol - awgryma gwaith modelu'r Adran Iechyd y gellid lleihau nifer y bobl nad ydynt yn cael yr holl ofal sydd ei angen arnynt o hanner o gymharu â'r system gyfredol. Ond byddai pobl o hyd na fyddent yn cael yr holl ofal sydd ei angen arnynt.

Adeiladu ar yr opsiwn Partneriaeth

9.13. Ni fyddai'r opsiwn partneriaeth ei hun yn diogelu pobl yn erbyn y risg o orfod talu costau uchel tuag at eu gofal. Ac os ydynt ymhlith y nifer fach o bobl sy'n treulio blynyddoedd mewn gofal preswyl ac yn berchen ar eu cartref eu hunain, mae'n bosibl y byddai'n rhaid iddynt ddefnyddio bron gwerth cyfan eu cartref i dalu am ofal o hyd. **Yn eich barn chi, a fyddai'r opsiwn Partneriaeth ar ei ben ei hun yn ddigonol i ddiwygio'r system mewn modd teg a chynaliadwy?**

9.14. Felly mae angen i ni ystyried, unwaith eto, y ffordd orau o gefnogi'r bobl hynny sydd am ddiogelu eu hunain rhag y risg y gallent wynebu costau gofal uchel iawn. Mae Llywodraeth y DU yn cyflwyno dau opsiwn posibl, y gellid paru'r naill neu'r llall gyda'r opsiwn Partneriaeth fel yr amlinellwyd uchod:

a. Gallem gael system lle y gallai pobl ddewis diogelu eu hunain rhag y risg o gostau gofal uchel posibl. Yr opsiwn Yswiriant fyddai hwn; neu

b. gallem gael system y mae'n rhaid i bawb gyfrannu ati ac, yn eu tro, câi costau gofal sylfaenol pawb eu talu. Ni fyddai pobl yn wynebu'r risg o orfod talu costau gofal uchel posibl mwyach. Yr opsiwn Cynhwysfawr fyddai hwn.

OPSIWN 4: YSWIRIANT

9.15. Un o negeseuon ein hymgynghoriad yng Nghymru oedd bod nifer o bobl wedi dweud wrthym ei bod yn bwysig iddynt allu diogelu eu cynilion a sicrhau na fyddai'n rhaid iddynt ddefnyddio gwerth cyfan eu cartrefi i dalu am ofal. At hynny, cydnabu ein Grŵp Cynghori y gallai fod nifer o alwadau dilys ar gyfoeth eiddo teulu. Wrth ystyried a ellid defnyddio ecwiti eiddo i gyfrannu at gost gofal, dywedodd y Grŵp Cynghori:

> “Cydnabyddir o fewn y Grŵp Cynghori na fydd ecwiti, lle y bo'n bodoli, o reidrwydd ar gael i dalu am ofal. Mewn llawer o deuluoedd, fe'i defnyddir eisoes at ddibenion amrywiol, yn arbennig i ariannu addysg uwch neu eu cartrefi eu hunain neu gartrefi eu plant; a theimlwn y dylai teuluoedd barhau i gadw ymreolaeth o ran penderfynu ar y ffordd orau o ddyrannu eu cyfoeth ymysg aelodau'r teulu. Yn ein barn ni, nid ymddengys fod unrhyw resymeg benodol i geisio dyrannu arian er mwyn talu am ofal ar ei

ben ei hun (yn hytrach nag unrhyw faes arall o wariant) fel y buddiolwr priodol o gyfoeth eiddo." (paragraff 4.38)[7]

9.16. Un ffordd o fynd i'r afael â'r amrywiaeth hwn o bryderon fyddai ei gwneud yn haws i bobl drefnu yswiriant. Mae nifer o rolau y gallai'r wladwriaeth eu chwarae i alluogi hyn. Gallai'r Llywodraeth weithio gyda'r diwydiant yswiriant preifat, neu sefydlu system yswiriant a gefnogir gan y wladwriaeth, efallai gyda chymhelliannau gwahanol i bobl ymuno â'r cynllun.

9.17. Pe bai pobl yn penderfynu cyfrannu at gynllun a gefnogir gan y wladwriaeth, byddai'r holl ofal a chymorth sylfaenol a gânt am ddim pe bai arnynt eu hangen. Gallai pobl dalu mewn nifer o wahanol ffyrdd, cyn neu ar ôl ymddeol neu ar ôl eu marwolaeth pe bai'n well ganddynt wneud hynny. Fel arwydd o'r costau, gallai fod angen i bobl dalu tua £20,000 i £25,000 i gael eu diogelu o dan gynllun a gefnogir gan y wladwriaeth o'r math hwn, o gymharu â chost gyfartalog gofal i unigolyn 65 oed, sef £30,000. Byddai'r system hon yn gweithio i bobl dros oedran ymddeol.

9.18. Yn y system Yswiriant, y model partneriaeth fyddai'r model sylfaenol o hyd, fel y telid cyfran, fel chwarter neu draean, o gostau gofal pawb. Ond gallai'r Llywodraeth helpu pobl hefyd i baratoi i dalu'r costau y byddai'n rhaid iddynt eu talu eu hunain, drwy yswiriant.

9.19. Byddai pobl wahanol yn cael budd o'r dulliau gwahanol hyn o weithredu ond po fwyaf obobl a oedd yn rhan o'r cynllun, y mwyaf effeithiol y byddai'r system yswiriant yn gweithio. Bydd angen ystyried pa rôl y dylai'r wladwriaeth ei chwarae ymhellach wrth gefnogi'r opsiwn Yswiriant, yn wyneb y dirywiad economaidd ehangach a blaenoriaethau economaidd eraill.

Yswiriant preifat

Sut y byddai'r system yn gweithio

9.20. Ar hyn o bryd, nifer fach iawn sy'n trefnu yswiriant preifat o gymharu â'r rheini sydd angen gofal. Mae hyn yn rhannol oherwydd bod costau gofal a chymorth mor uchel fel bod yn rhaid i'r premiymau yswiriant fod yn uchel hefyd. Os bydd y Llywodraeth yn ymrwymo i helpu gyda chyfran gofal a chymorth pawb, gallai premiymau yswiriant fod yn is nag ydyw ar hyn o bryd.

9.21. Gallai'r diwydiant yswiriant, o bosibl, ddatblygu cynhyrchion a allai helpu pobl i ddelio â chostau gofal uchel, ac o bosibl â chostau llety pe byddai angen gofal preswyl arnynt. Byddai angen i'r Llywodraeth weithio gyda'r diwydiant yswiriant i ddatblygu fframwaith ar gyfer cynhyrchion yswiriant syml a safonol i'w gwneud yn haws i bobl ddeall eu hopsiynau.

[7] Talu am Ofal yng Nghymru - Adroddiad Grŵp Cynghori Rhandeiliaid, Mehefin 2009. www.payingforcareinwales.net

Manteision ac anfanteision

- Y brif fantais yw y byddai'r opsiwn hwn yn hyblyg. Pe bai'r sector preifat yn datblygu amrywiaeth o gynhyrchion, gallai pobl ddewis faint y byddent am ei dalu a faint y byddent am ddiogelu eu hunain yn gyfnewid am hyn, yn ychwanegol at yr hyn y mae'r wladwriaeth yn talu amdano.
- Anfantais hyn yw na fydd cynhyrchion yswiriant preifat, o bosibl, ar gael i bobl a aned ag anghenion gofal a chymorth. Mae hyn oherwydd na all pobl yswirio yn erbyn risg rhywbeth sydd eisoes wedi digwydd. Yn sgîl hyn, cafwyd amheuon ymhlith Grŵp Cynghori Cymru ynglŷn â hyrwyddo mwy o ddibyniaeth ar yswiriant preifat. Fodd bynnag, byddai llawer o bobl a aned ag anghenion gofal a chymorth yn gymwys i gael eu holl ofal am ddim o dan elfen Bartneriaeth yr opsiwn, gan fod llawer yn debygol o fod ar incymau isel.

Yswiriant a gefnogir gan y wladwriaeth

Sut y byddai'r system yn gweithio

9.22. Gallai'r wladwriaeth sefydlu cynllun yswiriant a fyddai'n galluogi pobl hŷn i ddiogelu eu hunain rhag costau gofal a chymorth uchel. Unwaith eto, byddai'r opsiwn hwn yn debygol o fod yn llai perthnasol i bobl a aned ag anghenion gofal a chymorth gan fod llawer yn debygol o fod yn gymwys i gael gofal am ddim o dan yr opsiwn Partneriaeth.

9.23. Gallai'r bobl a ddewisodd fod yn rhan o'r cynllun - p'un ai drwy dalu'r premiwm ymlaen llaw neu drwy ymrwymo i dalu pan fyddant yn marw - fod yn sicr y câi eu holl ofal a chymorth sylfaenol eu darparu am ddim, waeth ym mha ran o'r wlad yr oeddent yn byw, unwaith y cyrhaeddent lefel benodol o angen.

9.24. Byddai cyfran o gostau'r bobl a ddewisodd beidio â bod yn rhan o'r cynllun, ond nid y costau i gyd, yn cael eu talu o hyd a byddai angen iddynt dalu unrhyw gostau gofal a chymorth yn ychwanegol i'r rhai y talwyd amdanynt gan y wladwriaeth.

9.25. Gellid cyfyngu ar rôl y wladwriaeth yn y system hon i sefydlu'r cynllun, ond gwyddom fod system yswiriant o'r math hwn yn gweithio'n well po fwyaf y bobl sy'n rhan ohoni, fel y gallai'r wladwriaeth ystyried ffyrdd gwahanol o'i hyrwyddo ac annog pobl i ymuno â hi.

Manteision ac anfanteision cyffredinol

- Manteision yr opsiwn Yswiriant yw y byddai pobl sy'n rhan o'r cynllun yn sicr y telid am y gofal sydd ei angen arnynt. Byddent yn gallu diogelu mwy o'u hystad a'i throsglwyddo i'w plant.
- Byddai gan bobl y dewis a hyblygrwydd ynghylch a oeddent am dalu i yswirio eu hunain. Gallent ddewis drostynt eu hunain p'un a oeddent yn debygol o fod angen llawer o ofal a chymorth, yn eu barn hwy, a ph'un a oeddent am yswirio eu hunain yn erbyn hyn.

- Yn yr hinsawdd economaidd sydd ohoni, gallai hyn fod yn ddeniadol i lawer o bobl. Mae llawer o bobl eisoes yn wynebu sefyllfaoedd ariannol anodd. Mae rhai pobl wedi dweud bod angen iddynt allu cydbwyso eu hanghenion o ran gofal a chymorth fforddiadwy yn erbyn yr ymrwymiadau ariannol eraill a wynebant.
- Anfanteision hyn yw y byddai pobl a ddewisodd beidio â threfnu yswiriant yn dal i wynebu'r risg o gostau uchel posibl yn ddiweddarach yn eu bywydau. Pe bai angen gofal preswyl arnynt, byddai'n rhaid iddynt ddefnyddio eu cynilion neu eu hasedau i dalu am ofal, yn ôl pob tebyg.
- Yn ogystal â hyn, er mwyn i'r yswiriant weithio'n dda iawn, mae angen cynifer o bobl â phosibl i fod yn rhan o'r cynllun. Mae hyn oherwydd bod y risg o fod angen gofal yn cael ei rannu rhwng cynifer o bobl â phosibl ac felly mae'n rhaid i bawb dalu llai. Er y gallai'r wladwriaeth annog pobl i fod yn rhan ohono, byddai cynllun gwirfoddol o'r fath yn denu llai o bobl a byddai'n fwy costus i fod yn rhan ohono na system y mae pawb yn rhan ohoni.

Gallai yswiriant preifat neu system yswiriant a gefnogir gan y wladwriaeth gyd-fynd â'n nodau ar gyfer y broses ddiwygio hon, yn y ffyrdd canlynol:

I'r graddau y byddai dau amrywiolyn y system hon yn cynnwys darparu'r opsiwn Partneriaeth yn gyffredinol (gyda'r wladwriaeth yn talu am rywfaint o ofal pawb), byddai pawb wedi'i gwmpasu o dan yr opsiwn hwn. Fodd bynnag, byddai pobl yn gallu dewis a oeddent am fod yn rhan o gynllun yswiriant.

Byddai'r ddau amrywiolyn yn deg, yn yr ystyr y byddai pobl sy'n llai cefnog wedi'u diogelu rhag costau gofal uchel drwy gael mwy o arian gan y wladwriaeth, a byddai pobl sy'n well eu byd yn gallu diogelu eu hunain yn well rhag costau gofal a chymorth uchel drwy brynu yswiriant. Byddai'r amrywiolion yn rhoi'r cyfle i bobl sydd wedi gweithio a chynilo drwy gydol eu bywydau i ddiogelu eu hasedau.

Gallai'r wladwriaeth a'r bobl sydd angen gofal fforddio'r ddau amrywiolyn. Gofynnid i bobl gyfrannu yn unol â'u hincwm a'u cyfoeth.

Byddai'r ddau amrywiolyn yn gymharol syml a hawdd eu deall. Byddai pobl yn gwybod beth roedd eu hawl yn debygol o fod o dan y model Partneriaeth craidd, er na fyddent yn gwybod yn union faint y byddai'n rhaid iddynt ei dalu. At hyn, byddai pobl yn gwybod beth roeddent wedi'i yswirio yn ei erbyn. O dan yr yswiriant a gefnogir gan y wladwriaeth, byddai pawb a oedd yn y cynllun yn gwybod yn glir beth y byddai'n rhaid iddynt ei dalu ac y byddent yn cael gofal am ddim yn gyfnewid am hyn.

Byddai'r ddau amrywiolyn yn helpu pobl i fyw eu bywydau yn y ffordd yr oeddent am ei wneud, drwy roi cymorth i fwy o bobl a sicrhau bod pawb mewn sefyllfa well i ddiwallu eu hanghenion. Bydd nifer y bobl nad oeddent yn cael yr holl ofal sydd ei angen arnynt yn dibynnu ar faint wnaeth ddewis bod yn rhan o'r cynlluniau yswiriant gwahanol. Awgryma profiad gwledydd eraill y byddai nifer gymharol fach o bobl yn dewis trefnu yswiriant preifat. Po fwyaf gweithgar yw rôl y wladwriaeth o ran hyrwyddo yswiriant, y mwyaf o bobl y gellid eu cwmpasu.

Yn eich barn chi, a fyddai'r opsiwn Yswiriant yn gweithio'n dda, o'i gyfuno â'r datrysiad Partneriaeth? Yn eich barn chi, beth yw'r manteision a'r anfanteision?

OPSIWN 5: CYNHWYSFAWR

Sut y byddai'r system yn gweithio

9.26. Yn y system hon, byddai'n ofynnol i bawb dros yr oedran ymddeol yr oedd ganddynt yr adnoddau i wneud hynny gyfrannu at gynllun yswiriant y wladwriaeth. Byddai pawb a fyddai'n gallu talu yn gwneud hynny, ac yna byddai pawb a oedd yn gymwys i gael gofal a chymorth oherwydd eu hanghenion yn cael eu holl ofal a chymorth sylfaenol am ddim pan fyddai eu hangen arnynt. Byddai'n bosibl amrywio faint y byddai'n rhaid i bobl ei dalu yn ôl beth y gallent ei fforddio. Gellid pennu cyfraniad pobl yn ôl pa gynilion neu asedau oedd ganddynt, fel bod y system yn fwy fforddiadwy i bobl a oedd yn llai cefnog.

9.27. Mae Llywodraeth y DU yn rhagweld y byddai'r wladwriaeth yn cyfrannu arian presennol o drethi a ddefnyddir ar gyfer gofal cymdeithasol ac unrhyw fudd-daliadau anabledd a gafodd eu hintegreiddio, a byddent yn defnyddio hyn i gynnal costau gofal pawb. Ac, yn ogystal â hyn, byddai'n ofynnol i bobl o oedran ymddeol neu'n hŷn gyfrannu at gynllun cenedlaethol.

9.28. Fel arall, pe bai pobl am gael gwybod yn union faint y byddai'n rhaid iddynt dalu, gallem gael un ffigwr penodedig i'w dalu gan y rhan fwyaf o bobl, heblaw'r rhai â lefel is o gynilion neu asedau, fel y byddai pawb yn gwybod faint y byddai'n rhaid iddynt gynilo. Byddai'r wladwriaeth yn talu dros y bobl hynny na allent fforddio cyfrannu at y system. Gan fod pawb yn y system, a gellid defnyddio holl arian y wladwriaeth i dalu am ofal a chymorth i leihau'r costau, byddai pobl yn gallu talu llai na'u costau tebygol, ar gyfartaledd.

9.29. Fel arwydd o'r costau, gallai fod angen i bobl dalu tua £17,000 i £20,000 i gael eu diogelu o dan gynllun o'r math hwn, o gymharu â chost gyfartalog gofal i unigolyn 65 oed, sef £30,000. Byddai'r gost yn llai i bobl a oedd dros 65 oed pan gyflwynwyd y cynllun. Gall pobl dalu mewn sawl ffordd wahanol, mewn rhandaliadau neu fel cyfandaliad, cyn neu ar ôl iddynt ymddeol, neu ar ôl iddynt farw. Unwaith y bydd pobl wedi talu eu cyfraniad, byddent yn cael eu gofal am ddim yn ôl yr angen. Byddai cyfran fawr o'r arian ar gyfer y cynllun hwn yn dal i ddod o drethiant cyffredinol.

9.30. O blith yr opsiynau a gefnogir gan Lywodraeth y DU, yr opsiwn hwn yw'r un tebycaf i'r dewisiadau a fynegwyd gan Grŵp Cynghori Cymru:

> “Rydym yn gadarn o blaid model newydd ar gyfer talu am ofal sy'n seiliedig ar fodel a ariennir gan daliadau gan bawb mewn cymdeithas, yn ôl eu gallu i dalu, yn bennaf yn ystod eu bywyd gwaith. Cydnabyddwn mai cynyddu trethiant cyffredinol, neu sefydlu cronfa yswiriant cymdeithasol

newydd neu Gronfa Gofal Cenedlaethol y byddai disgwyl i'r rhan fwyaf o bobl gyfrannu ati yw'r prif opsiynau ar gyfer cyflawni hyn." (paragraff 4.9)[8]

9.31. **Yn eich barn chi, a fyddai'r opsiwn Cynhwysfawr yn gweithio'n dda, o'i gyfuno â'r datrysiad Partneriaeth? Yn eich barn chi, beth yw'r manteision a'r anfanteision?**

9.32. Gallai'r Llywodraeth ystyried darparu cyfradd is i gyplau gan y gall y costau i ddau fod yn uchel iawn a bydd llawer o gyplau yn cefnogi ei gilydd ac yn darparu gofal i'w gilydd. Fodd bynnag, pe baem yn gwneud hyn, byddai angen i ni wneud y cyfraniadau'n uwch nag ydyw i bobl sengl. **Pe mabwysiedid yr opsiwn Cynhwysfawr, a ddylai cyplau dalu llai, yn eich barn chi?**

9.33. Byddai'r Llywodraeth hefyd yn ystyried, gan y byddai pobl dros yr oedran ymddeol yn cael gofal a chymorth am ddim pan fyddai eu hangen arnynt, a ddylai pobl o oedran gweithio sydd ag anghenion gofal allu cael gofal am ddim hefyd.

Manteision ac anfanteision

- Un o fanteision y system Gynhwysfawr yw y byddai'n rhoi tawelwch meddwl i bobl. Unwaith y bydd pobl wedi talu eu cyfraniad, byddent yn gwybod y byddent yn cael y gofal a'r cymorth sydd eu hangen arnynt. Byddai'r system yn sicrhau na fyddai neb sy'n gymwys i gael gofal a chymorth yn mynd heb y gofal a'r cymorth sydd eu hangen arnynt. Cyfleodd ein hymgynghoriad blaenorol yng Nghymru y neges glir fod y mwyafrif helaeth o bobl am gael system y gallent gyfrannu ati pan allent fforddio gwneud hynny, fel bod eu gofal a'u cymorth ar gael am ddim pan fyddai eu hangen arnynt ac ni fyddai'n rhaid iddynt boeni.

- Byddai'r system yn glir ac yn syml. O dan y system Gynhwysfawr, byddai'n amlwg beth y byddai'n rhaid i bobl ei gyfrannu.

- Byddai'n rhaid i bobl gyfrannu at y system ond byddent yn gallu diogelu eu cynilion ac ni fyddai'n rhaid iddynt leihau gwerth eu cartrefi i dalu am ofal a chymorth. Unwaith y byddent yn talu eu cyfraniad, ac unrhyw gostau ar gyfer bwyd a llety pe baent mewn gofal preswyl, gellid trosglwyddo popeth arall i'w plant.

- Byddai'r system Gynhwysfawr yn rhatach i bobl gyfrannu ati na'r system Yswiriant, gan y byddai cynllun y mae'n ofynnol i bawb gyfrannu ati yn costio llai i'r unigolyn na chynllun yswiriant gwirfoddol ar raddfa lai. A gallai'r system fod yn hyblyg: gallai pobl dalu mewn sawl ffordd, fel y gallent ddewis y dull sy'n iawn iddynt hwy.

[8] Talu am Ofal yng Nghymru - Adroddiad Grŵp Cynghori Rhanddeiliaid, Mehefin 2009. www.payingforcareinwales.net

- Anfantais y system hon - fel gydag unrhyw system yswiriant - yw y byddai'n rhaid i bawb gyfrannu ati, waeth p'un a oes angen gofal arnynt a ph'un a fyddant yn elwa o'r system o gwbl. Gan fod cymaint o amrywio o ran faint y mae'n rhaid i bobl ei dalu am ofal a chymorth, byddai'n rhaid i rai pobl dalu llawer mwy na chostau gwirioneddol eu gofal a'u cymorth, tra byddai eraill yn talu llai o lawer. Ac, yn yr hinsawdd economaidd sydd ohoni, mae'n bosibl na fydd pobl am ysgwyddo ymrwymiad ychwanegol o dalu am ofal a chymorth.

Gallai'r system gynhwysfawr fodloni ein nodau ar gyfer y broses ddiwygio hon, fel a ganlyn:

Byddai'r system yn gwbl gyffredinol, gan y byddai cost gofal a chymorth pawb y byddai angen gofal a chymorth arnynt yn cael ei thalu.

Byddai'r system yn deg, gyda phawb a allai fforddio yn cyfrannu ati a phawb sydd angen gofal a chymorth yn elwa. Fodd bynnag, byddai rhai pobl yn cyfrannu mwy nag y byddent yn elwa.

Byddai'r system yn fforddiadwy i'r wladwriaeth ac i'r bobl sydd angen gofal a chymorth. Gallai'r symiau y byddai'n rhaid i bobl eu talu amrywio fel y byddai pobl sy'n llai cefnog yn talu llai. Byddai'r wladwriaeth yn talu'r premiwm dros bobl na allent fforddio gwneud hynny.

Byddai'r system yn syml iawn ac yn hawdd ei deall. Byddai pobl yn deall beth y byddai'n rhaid iddynt ei dalu a byddent yn cael gofal a chymorth am ddim yn gyfnewid am hyn.

Byddai'r system yn helpu pobl i fyw eu bywydau fel y mynnant, drwy sicrhau bod anghenion gofal a chymorth pawb yn cael eu diwallu a thrwy roi tawelwch meddwl.

10. Ffyrdd o gyfrannu

10.1. Yn yr hirdymor, gallem gael system a fyddai'n galluogi pobl sy'n dal i weithio i wneud cyfraniadau rheolaidd fel y gallent gynilo a thalu eu cyfraniadau i'r system Yswiriant neu Gynhwysfawr erbyn iddynt ymddeol.

10.2. Ond ni fyddai hyn yn datrys y mater uniongyrchol am y nifer gynyddol o bobl hŷn y bydd angen gofal arnynt dros y degawd nesaf, gan na fydd llawer o'r bobl hyn yn cael amser i gynilo swm digonol cyn iddynt ymddeol.

10.3. Felly, o'r cychwyn cyntaf, gallem gael dewislen o ffyrdd gwahanol i bobl dalu eu cyfraniad, naill ai i'r system Yswiriant neu i'r system Gynhwysfawr. Gallai pobl ddewis sut i dalu yn ôl yr opsiwn sy'n addas iddynt hwy.

10.4. Pe bai gan rywun gynilion, efallai y byddai'n well ganddynt dalu eu cyfraniad mewn un cyfandaliad, ar ôl iddynt ymddeol. Pe bai rhywun yn gallu gohirio ei ymddeoliad, efallai y byddai'n penderfynu gohirio eu Pensiwn y Wladwriaeth am ychydig flynyddoedd a defnyddio'r arian i gyfrannu at y cynllun. Gallai pobl dalu

mewn rhandaliadau fforddiadwy drwy gydol eu hymddeoliad. Pe na bai rhywun am dalu unrhyw beth yn ystod eu bywydau, gallent ohirio'r taliad cyfan hyd nes iddynt farw, ac yna ei dalu o'u hystad. Neu gallem amrywio'r opsiynau hyn, gan eu cyfuno fel y gallai pobl, er enghraifft, dalu'n rhannol fel cyfandaliad o'u pensiwn ac yn rhannol mewn rhandaliadau drwy gydol eu hymddeoliad.

10.5. Fodd bynnag, gwyddom fod llawer o bobl wedi dweud y byddent yn hoffi gallu dechrau paratoi cyn iddynt ymddeol. Felly wrth i'r system ddatblygu, byddem yn ystyried cyflwyno opsiynau sy'n rhoi mwy o hyblygrwydd i bobl wneud eu cyfraniad yn ystod eu bywydau gwaith.

10.6. **Hoffem glywed gennych ynglŷn â ffyrdd eraill y credwch y gallai pobl dalu i mewn i'r system hon, yn eich barn chi, a'r ffordd hawsaf i bobl dalu.**

10.7. Waeth sut y byddai pobl yn talu, byddai'r taliad yswiriant yn helpu'r bobl hynny ag asedau sylweddol i ddiogelu eu cyfoeth a gwerth eu cartrefi. Waeth p'un a fyddent yn penderfynu talu yn ystod eu bywyd gwaith, yn ystod eu hymddeoliad neu ar ôl iddynt farw, byddai pobl yn gwybod unwaith y byddent wedi gwneud eu cyfraniad ac wedi talu am eu llety, na fyddai costau eu gofal a'u cymorth yn atal gweddill eu cyfoeth rhag cael ei drosglwyddo i'w plant.

11. Costau llety

11.1. Mae'n bwysig nodi bod yr opsiynau a gynigiwyd gan Lywodraeth y DU ond yn ystyried costau **gofal** pobl. Byddai'n rhaid i bobl sy'n mynd i aros mewn cartref gofal dalu am eu llety hefyd, fel sy'n digwydd ar hyn o bryd. Nid yw'r wladwriaeth yn talu costau llety, fel costau bwyd a gwely, costau glanhau'r ystafell, darparu bwyd a golchi dillad. Mae hyn oherwydd na fyddai'r wladwriaeth yn talu am fwyd, morgais neu rent pobl pe baent yn byw gartref; mae'r costau hyn yn rhan arferol o fywyd rhywun, waeth p'un a oes angen gofal arnynt ai peidio. Wrth gwrs, byddai gan y wladwriaeth bob amser rôl i'w chwarae o ran cefnogi pobl a oedd mewn cartref gofal na allent fforddio'r costau hyn; ond credwn hefyd y gall y Llywodraeth wneud mwy i helpu pobl yn y ffordd y maent yn talu'r costau hyn.

Y system gyfredol

11.2. Ar hyn o bryd, mae'n rhaid i bobl yng Nghymru sydd â chynilion neu sy'n berchen ar dŷ gwerth mwy na £22,000, ac nad yw eu partner neu eu priod yn byw yn eu cartref, gyfrannu at gostau eu llety. Dros arhosiad o ddwy flynedd, ar gyfartaledd, gallent wario tua £25,000 ar eu costau gofal a thua'r un faint ar eu costau llety.

11.3. Bydd pobl sydd â llai na £22,000 o asedau, neu y mae eu priod neu eu partner yn dal i fyw yn eu cartref teuluol, yn cael cyfraniad gan y wladwriaeth tuag at eu costau llety.

Taliadau gohiriedig am lety

11.4. Mae Llywodraeth y DU yn cynnig dull talu gohiriedig cyffredinol ar gyfer gofal preswyl a chostau llety. Golyga hyn pan fydd rhywun yn dewis mynd i gartref gofal, ni fydd yn rhaid iddynt dalu'r costau llawn ar unwaith.

11.5. Bydd rhai pobl bob amser sy'n treulio cyfnodau hir mewn gofal preswyl ac felly yn wynebu costau sy'n uwch o lawer na'r cyfartaledd. O dan y system gyfredol, gallai hyn olygu bod yn rhaid iddynt werthu eu cartref. Cynigir taliadau gohiriedig gan sawl awdurdod lleol eisoes fel modd i bobl allu talu am gost eu gofal a'u llety mewn cartref gofal drwy eu ystad pan fyddant yn marw, yn hytrach na gorfod gwerthu eu cartref pan fydd angen gofal preswyl arnynt.

11.6. Credwn y dylai'r opsiwn o ohirio taliadau costau gofal a llety mewn gofal preswyl fod ar gael i bawb.

11.7. Mae hwn yn fater y gallai Llywodraeth Cynulliad Cymru benderfynu cyflwyno deddfwriaeth arno wedi'i theilwra i amgylchiadau Cymru. Felly, **mae'n bwysig i ni gael darlun clir ynglŷn â pha un a fyddai'n flaenoriaeth i bobl Cymru gael yr hawl i ohirio taliadau cost gofal a llety yn y modd hwn.**

12. Bod yn deg i bobl sydd wedi cynilo

12.1. Yn ystod ein hymgynghoriad blaenorol, cododd nifer o bobl eu pryderon y dylai unrhyw system ariannu newydd fod yn deg i'r rheini sydd wedi gweithio'n galed a chynilo drwy gydol eu bywyd. Teimlai pobl yn gryf ynglŷn â'r syniad y byddai'n rhaid iddynt dalu mwy pe baent wedi gweithio'n galed a chynilo na phe baent wedi dewis gwario eu holl arian a pheidio â thrafferthu cynilo.

12.2. Gwyddom fod rhai pobl nad ydynt yn berchen ar fawr ddim pan fyddant yn marw. Yn aml, nid oes gan y bobl hyn gartref i'w adael ac nid oes ganddynt gynilion. Weithiau, mae hyn oherwydd eu bod wedi bod ar incwm isel iawn ac ni allent gynilo na phrynu tŷ. Mae pobl eraill wedi dewis peidio â gwneud hynny. **Byddem yn croesawu eich safbwyntiau ar sut y byddwn yn cydbwyso system sy'n helpu pawb sydd angen cymorth ariannol, waeth pa mor gefnog ydynt, gyda system sy'n cefnogi pobl sydd wedi gweithio'n galed a chynilo.**

13. System ariannu a bennir yn genedlaethol neu'n lleol

13.1. Yn ogystal â phennu pa un o'r opsiynau ar gyfer model ariannu a amlinellwyd yn flaenorol yn y bennod hon fyddai fwyaf priodol, mae angen i ni hefyd ystyried y materion yn ymwneud â sut i flaenoriaethu arian y wladwriaeth. Un o'r prif gwestiynau y mae angen i ni ei ateb yw p'un a ddylai pobl gael yr un lefel o gymorth ariannol i gyfrannu at eu cymorth a'u gofal waeth ble maent yn byw yng Nghymru, neu p'un a yw'n dderbyniol i bobl mewn rhannau gwahanol o Gymru gael symiau gwahanol o gymorth hyd yn oed oes os ganddynt yr un anghenion.

13.2. Waeth pa system ariannu y cytunir arni yn y pen draw, bydd awdurdodau lleol yn chwarae rôl allweddol yn y gwaith o ddarparu gofal a chymorth. Byddant yn parhau i wneud y canlynol:

- bod yn gyfrwng arian y wladwriaeth ar gyfer gofal a chymorth;
- cynnal asesiadau cymhwyster;
- darparu gwybodaeth, gwasanaeth eirioli a rheoli gofal i unigolion;

- darparu a chomisiynu gwasanaethau, a rheoli'r farchnad darparwyr gofal cymdeithasol;
- meithrin arloesedd ym maes gofal a chymorth, gan ddefnyddio eu rhyddid i benderfynu yn union pa wasanaethau a ddarperir yn lleol.

13.3. Byddai angen i ni sicrhau, waeth beth ddigwyddai i'r system, y byddai gan awdurdodau lleol ddigon o arian i allu parhau'n briodol i ddarparu gwasanaethau cymdeithasol eraill i'w cymunedau.

Yr angen am system genedlaethol

13.4. Roedd y mwyafrif helaeth o'r bobl a ymatebodd i'n hymgynghoriad blaenorol am weld system lle y câi pobl eu trin yn gyfartal waeth ymhle yr oeddent yn byw.

13.5. Mae rhai pobl anabl wedi nodi iddynt gael problemau penodol gyda'r system gyfredol. Os ânt i fyw mewn ardal newydd ni allant byth fod yn siŵr y bydd yr awdurdod lleol newydd yn ariannu eu gofal a'u cymorth. I rai pobl, gall hyn olygu ei bod bron yn amhosibl iddynt symud tŷ neu ymgymryd â swydd newydd neu fod yn agosach at eu teulu, neu fyw bywyd arferol hyd yn oed.

13.6. Mae angen i'r system newydd alluogi pobl i fyw eu bywydau fel y mynnant, mewn ffyrdd y mae'r rhan fwyaf o bobl yn eu cymryd yn ganiataol - er enghraifft, drwy sicrhau y gall myfyriwr yn y brifysgol symud rhwng ei gartref a'r brifysgol ar ddechrau'r tymor heb orfod ail-drafod ei becyn cymorth bob tro.

Yr angen am hyblygrwydd lleol

13.7. Ar y llaw arall, mae'n bosibl y bydd gan ardaloedd gwahanol o'r wlad anghenion gwahanol iawn. Mae'n bosibl y bydd gan ddinas ddull hollol wahanol o ymdrin â gofal a chymorth o gymharu ag ardal wledig anghysbell, a gallai gostio symiau gwahanol i ddarparu gwasanaethau. Mae'n rhaid i benderfyniadau ar sut i gynllunio neu ddarparu gwasanaethau gael eu gwneud yn lleol, gan y bobl sy'n adnabod yr ardal.

13.8. Golyga hyn y bydd pobl sy'n byw mewn rhannau gwahanol o'r wlad, yn anochel, yn gallu manteisio ar wahanol fathau o wasanaethau ac yn cael gwahanol fathau o ofal a chymorth, i'w galluogi i gyflawni'r un canlyniadau.

13.9. Mae'r rhan fwyaf o bobl yng Nghymru a atebodd ein hymgynghoriad cynharach wedi dweud wrthym y byddem am weld system genedlaethol (Cymru gyfan) ar waith; ond roeddent o'r farn bod angen rhywfaint o hyblygrwydd yn y system i alluogi awdurdodau lleol ac eraill i gynllunio gwasanaethau'n lleol. Yn y modd hwn, gallant ymateb i'r hyn sydd ei angen ar bobl mewn ardal, adlewyrchu amgylchiadau lleol ac annog dulliau arloesol o ddarparu gwasanaethau.

13.10. Fodd bynnag, fel egwyddor gyffredinol, nid oedd pobl o'r farn bod hwn yn rheswm pam y dylai pobl sy'n byw mewn un ardal gael arian i dalu am eu gofal a'u cymorth tra bo pobl sy'n byw mewn ardal arall yn cael dim cymorth, neu lefelau gwahanol o gymorth gan y wladwriaeth. Mae Llywodraeth y Cynulliad eisoes yn ymrwymedig i fynd i'r afael â'r agweddau mwy eithafol o'r amrywiadau rhanbarthol a

all ddigwydd mewn perthynas â pholisïau codi tâl ledled Cymru, yn arbennig drwy ddeddfwriaeth a gaiff ei hystyried ar hyn o bryd gan y Cynulliad, sydd â'r nod o sicrhau bod codi tâl am ofal dibreswyl yn decach ac yn fwy cyson[9].

System genedlaethol i Gymru

13.11. Credwn y dylai'r system gofal a chymorth fod yn deg ac yn gyffredinol, fel ein bod yn sicrhau bod pawb sydd angen gofal yn gallu cael gofal, waeth ble maent yn byw. Credwn hefyd fod yn rhaid i'r system alluogi pobl i symud o amgylch y wlad heb beri'r risg y byddant yn colli pob rhan o'u gofal a'u cymorth oherwydd eu bod wedi symud tŷ. Bydd hyn yn sicrhau bod pobl sydd angen gofal a chymorth yn cael eu grymuso i fyw bywydau normal a'u bod yn gallu dewis ble maent am fyw a gweithio, yn y ffordd y mae'r rhan fwyaf o bobl yn ei gymryd yn ganiataol.

13.12. Dywedodd ein Grŵp Cynghori:

> "Argymhellwn y dylai Llywodraeth Cynulliad Cymru sefydlu system genedlaethol (Cymru gyfan) i roi cymorth i'r rheini sydd angen gofal, gan gwmpasu fframwaith cymhwyster clir a dull asesu cyson ac ystyrlon o weithredu ledled Cymru. Dylai gydweddu â deddfwriaeth Llywodraeth y Cynulliad, sydd ar droed, i sicrhau bod y system ar gyfer gofal cymdeithasol dibreswyl yn codi tâl yn decach ac yn fwy cyson." (Argymhelliad 15)[10]

13.13. Un opsiwn ar gyfer cyflawni hyn fyddai i Lywodraeth y Cynulliad, neu Lywodraeth y DU, benderfynu'n ganolog faint o arian y dylai pobl ei gael. Gellid sefydlu system lle byddai pawb a oedd â'r un lefel o angen yn cael yn union yr un arian waeth ble y byddent yn byw yng Nghymru (neu Gymru a Lloegr), ond ni fyddai hyn yn ystyried y ffaith y gallai'r un swm o arian brynu llai o wasanaethau mewn un ardal o Gymru o gymharu ag ardal arall. Fel arall, gallem gael system genedlaethol a fyddai'n rhoi symiau fymryn yn wahanol i bobl yn dibynnu ar ble maent yn byw yng Nghymru i ystyried costau gwahanol gofal a chymorth ledled y wlad.

13.14. Byddai system hollol genedlaethol yn gweithio gyda'r system Bartneriaeth, y system Yswiriant a'r system Gynhwysfawr.

13.15. Mantais y system hon yw y byddai'n hawdd i bobl ei deall a chynllunio ar ei chyfer. Dywedodd pobl wrthym y byddai'r system yn ymddangos yn decach pe bai pawb yn cael yr un faint o arian.

13.16. Yr anfantais yw y byddai'r system yn penderfynu, ar lefel genedlaethol, faint o arian y bydd rhywun yn mynd i'w gael. Gallai fod yn anos i awdurdodau lleol deilwra'r pecyn gofal a chymorth y bydd pobl yn ei gael i'w dyheadau ac i ymateb i amgylchiadau lleol. Ac efallai na fydd pobl sy'n byw mewn ardaloedd lle mae gofal a chymorth yn ddrud iawn yn gallu fforddio cymaint o ofal a chymorth. Gan na fyddai'r system hon mor hyblyg i anghenion pobl a byddai'n llai tebygol o allu ymateb i

[9] Mesur Codi Ffioedd am Wasanaethau Gofal Cymdeithasol (Cymru) Arfaethedig. http://www.assemblywales.org/bus-home/bus-legislation/bus-leg-measures/business-legislation-measures-scc-2.htm

[10] Talu am Ofal yng Nghymru - Adroddiad Grŵp Cynghori Rhandeiliaid, Mehefin 2009. www.payingforcareinwales.net

amrywiadau lleol, ni fyddai felly yn cynnig cystal gwerth am arian o ran arian trethdalwyr. Byddai colli hyblygrwydd yn y modd hwn yn risg benodol wrth gynllunio sut y mae gwasanaethau gofal a chymorth lleol yn gweithio gyda'r gwasanaethau a ddarperir gan y GIG.

13.17. Byddai'r system hon hefyd yn debygol o olygu newidiadau mawr i'r ffordd y caiff arian ei godi a'i wario ar gyfer gofal a chymorth yng Nghymru.

13.18. **Rydym am glywed gennych o ran a ydych yn cefnogi'r safbwyntiau a glywyd gennym eisoes, yn galw am system Cymru gyfan ar gyfer penderfynu pwy sy'n cael pa lefelau o gymorth. Rydym am glywed eich barn hefyd ar sut y dylai hyn gyd-fynd â chyfrifoldebau llywodraeth leol (gan weithio gydag asiantaethau eraill) o ran cynllunio a chomisiynu gwasanaethau yng Nghymru.**

13.19. **Yn olaf, hoffem wybod a ddylai'r un system fod yn gymwys yng Nghymru a Lloegr, neu a ddylai fod system annibynnol yng Nghymru. Waeth pa opsiwn bynnag sydd orau gennych, pa broblemau sy'n deillio o'r opsiynau hyn, yn eich barn chi?**

CWESTIYNAU'R YMGYNGHORIAD

Yn eich barn chi, a yw'n iawn bod y wladwriaeth yn parhau i ariannu gofal a chymorth y rhan fwyaf o bobl sy'n mynd yn anabl yn gynnar yn eu bywydau?

Yn Lloegr, mae'r Llywodraeth am ddefnyddio'r arian sydd yn y system ofal i sicrhau y bydd pawb sy'n gymwys i gael gofal a chymorth yn cael rhywfaint o help i dalu am eu gofal. Yn eich barn chi, ai dyma'r man cychwyn cywir yng Nghymru?

Budd-daliadau anabledd

Beth yw eich barn ar y posibilrwydd o uno budd-daliadau anabledd fel Lwfans Gweini â'r system ariannu gofal cymdeithasol?

Cyflwyno arian newydd i'r system

Yn eich barn chi, beth yw'r dull cywir o weithredu mewn partneriaeth rhwng y wladwriaeth a'r unigolyn yng Nghymru?

A gytunwch â chasgliadau Grŵp Cynghori Cymru bod rôl ganolog i'r wladwriaeth, neu, yn eich barn chi, a fyddai'r bobl yng Nghymru am gael mwy o ryddid i wneud eu trefniadau eu hunain i ddiogelu eu hunain rhag costau gofal uchel?

Opsiynau ariannu gwahanol

Beth yw eich barn chi ar y modelau ariannu gwahanol? Yn eich barn chi, i ba raddau y maent yn cyd-fynd â'r egwyddorion a argymhellwyd gan Grŵp Cynghori Cymru, ac â'r nodau a nodwyd ar ddechrau'r bennod hon?

Rydym yn cytuno i ddiystyru'r opsiwn 'Talu amdanoch eich Hun'. A gytunwch?

CWESTIYNAU'R YMGYNGHORIAD - PARHAD

A gytunwch nad yw talu costau llawn yr holl ofal a chymorth drwy drethiant yn opsiwn dichonadwy i'r dyfodol?

Yn eich barn chi, a fyddai'r opsiwn Partneriaeth ar ei ben ei hun yn ddigonol i ddiwygio'r system mewn modd teg a chynaliadwy?

Yn eich barn chi, a fyddai'r opsiwn Yswiriant yn gweithio'n dda i Gymru, o'i gyfuno â'r datrysiad Partneriaeth? Beth yw manteision ac anfanteision yr opsiwn hwn?

Yn eich barn chi, a fyddai'r opsiwn Cynhwysfawr yn gweithio'n dda i Gymru, o'i gyfuno â'r datrysiad Partneriaeth? Beth yw manteision ac anfanteision yr opsiwn hwn?

Pe mabwysiedid yr opsiwn Cynhwysfawr, a ddylai cyplau dalu llai, yn eich barn chi?

Ffyrdd o gyfrannu

A oes unrhyw ffyrdd y gallai pobl gyfrannu at y system hon? Beth fyddai'r ffyrdd hawsaf i bobl dalu?

A fyddai'n flaenoriaeth i'r bobl yng Nghymru gael hawl i ohirio taliadau cost gofal a llety mewn gofal preswyl?

Sut y gallem gydbwyso system sy'n helpu pawb sydd angen help (waeth pa mor gefnog ydynt) ag un sy'n cefnogi pobl sydd wedi gweithio'n galed a chynilo?

System ariannu a bennir yn genedlaethol neu'n lleol

Yn eich barn chi, a ddylai fod system Cymru gyfan i benderfynu pwy sy'n cael pa lefelau o gymorth? Yn eich barn chi, sut y byddai hyn yn cyd-fynd â chyfrifoldebau llywodraeth leol (gan weithio gydag asiantaethau eraill) o ran cynllunio a chomisiynu gwasanaethau yng Nghymru?

Yn eich barn chi, a ddylai'r un system fod yn gymwys yng Nghymru a Lloegr, neu a ddylai fod system annibynnol yng Nghymru? Yn eich barn chi, pa broblemau sy'n deillio o'r opsiynau hyn?

Pennod 4

Sut i Ymateb i'r Ymgynghoriad hwn

1.1. Bydd ymgynghoriad ar yr opsiynau a nodwyd yn y Papur Gwyrdd hwn yn mynd rhagddo tan 28 Chwefror 2010.

Sut i ymateb

1.2. Gwahoddir pawb yng Nghymru i fynegi eu barn ar sut y dylem dalu am ofal a chymorth yn y dyfodol. Mae nifer o ffyrdd y gallwch wneud hyn:

- Drwy'r wefan http://www.taluamofalyngnghymru.net

  Mae gwybodaeth am y Papur Gwyrdd a'r ymgynghoriad ar gael ar ein gwefan benodedig ar gyfer Talu am Ofal yng Nghymru. Yma, gallwch ddod o hyd i'n hadroddiadau ar ein hymgynghoriad cynharach ar yr amcanion a'r egwyddorion cyffredinol a ddylai lywio ein Papur Gwyrdd, ac adroddiad ac argymhellion Grŵp Cynghori Rhanddeiliaid Cymru.

  Gallwch gyflwyno eich safbwyntiau'n uniongyrchol i ni o'r wefan.

- Drwy anfon e-bost neu yn y post

  Fel arall, gallwch anfon eich safbwyntiau mewn neges e-bost at payingforcare@wales.gsi.gov.uk, neu drwy ysgrifennu at y Tîm Talu am Ofal, Is-adran Polisi Pobl Hŷn a Gofal Hirdymor, Llywodraeth Cynulliad Cymru, Parc Cathays, Caerdydd CF10 3NQ.

Rhagor o gopïau a fformatau hawdd eu deall

1.3. Gellir dod o hyd i ragor o gopïau caled o'r ddogfen ymgynghori drwy anfon e-bost at payingforcare@wales.gsi.gov.uk neu drwy ffonio 02920 82 5681.

1.4. Os oes angen y ddogfen hon arnoch mewn fformat amgen, cysylltwch â'r Tîm Talu am Ofal ar y rhif uchod.

1.5. Mae fersiwn Easy Read ar gael ar y wefan, neu drwy gysylltu â'r Tîm Talu am Ofal.

Ymgynghoriad rhanddeiliaid

1.6. Byddwn yn cynnal tri digwyddiad ymgynghori cenedlaethol i randdeiliaid yn ystod y cyfnod ymgynghori. Anfonwyd gwahoddiadau i'r rhain at bob un o'r 22 o awdurdodau lleol yng Nghymru, a gofynnwyd i'r awdurdodau anfon grŵp cynrychioliadol o gynrychiolwyr o'u hardal leol. Anfonwyd gwahoddiadau at sefydliadau cenedlaethol hefyd sydd â buddiant o ran talu am ofal.

1.7. Os ydych yn aelod o sefydliad neu grŵp buddiant, mae'n bosibl y byddwch am gyfrannu at ei ddadl ei hun ar opsiynau'r Papur Gwyrdd. Os hoffech drefnu digwyddiad ymgynghori lleol gydag aelodau eraill, ceir 'pecyn cymorth ar ymgynghoriadau' a ffurflen ymateb ar y wefan http://www.taluamofalyngnghymru.net.

Beth fydd yn digwydd nesaf?

1.8. Bydd Llywodraeth Cynulliad Cymru yn ystyried yn ofalus yr holl ymatebion a dderbynir ganddi yn ystod yr ymgynghoriad hwn. Cyhoeddir adroddiad ymgynghori, fydd yn crynhoi'r ymatebion a gafwyd, ar y wefan ychydig wythnosau ar ôl i'r ymgynghoriad ddod i ben.

1.9. Unwaith y bydd y Gweinidogion wedi ystyried yr adroddiad ymgynghori, byddant am gael trafodaethau pellach gyda Gweinidogion y DU, yn arbennig yn ymwneud â'r agweddau hynny ar Dalu am Ofal nad ydynt wedi'u datganoli i Gymru, fel budd-daliadau lles. Bydd angen trafod rhai materion hefyd gyda'r Alban a Gogledd Iwerddon, i lunio barn gyffredin ar yr hyn sy'n gweithio orau i ddinasyddion ym mhob cwr o'r DU. Bydd Gweinidogion Cymru am ystyried cyngor y Comisiwn hefyd ar Ddyfodol Gwasanaethau Cymdeithasol yng Nghymru o ran talu am ofal a sut mae hynny'n cydblethu â'u hargymhellion ar gyfer darparu'r gwasanaethau gofal pwysig hyn yn y dyfodol.

1.10. Pan wneir penderfyniad ar y ffordd orau o weithredu, bydd Papur Gwyn yn nodi cynigion ar gyfer y dyfodol. Gan y byddai hyn yn broses ddiwygio fawr, byddai angen cyflwyno'r newidiadau'n raddol dros nifer o flynyddoedd. Ac am fod y penderfyniad yn un mor sylfaenol i'n cymdeithas, credwn fod yn rhaid cael consensws clir ym mhob rhan o gymdeithas ar ba opsiwn a ffafrir cyn i ni benderfynu pa un yw'r opsiwn cywir i Gymru.

Sut y caiff fy sylwadau eu defnyddio?

1.11. Dim ond i lywio cynlluniau Llywodraeth y Cynulliad a Llywodraeth y DU i newid y system o dalu am ofal y defnyddir eich sylwadau. Bydd eich sylwadau yn ffurfio'r cynigion a nodir mewn Papur Gwyn yn y pen draw. Caiff yr ymatebion eu crynhoi yn yr adroddiad ymgynghori, a gyhoeddir ar y wefan. Ni chaiff unrhyw sylwadau eu priodoli i unigolion.

1.12. I gael rhagor o wybodaeth am ein polisi preifatrwydd, ewch i http://wales.gov.uk/consultations/aboutconsultations?lang=cy.